

STRATEGAETH DEHONGLI AR GYFER PERTHYN (ORIEL 1)**RHAGARWEINIAD**

Amcan y strategaeth hon yw cyflwyno sut y bwriada awduron Oriel 1 gyfathrebu gyda defnyddwyr presennol a phosibl, a darparu ar gyfer amrywiaeth o arddulliau ac anghenion dysgu.

Dyma'r cam cyntaf mewn datblygu strategaeth dehongli ar draws yr amgueddfeydd ar gyfer Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, a bydd yn dangos agwedd arloesol ac arbrofol at ddehongli'r casgliadau.

Seiliwyd y strategaeth ar Bolisi Dysgu a Mynediad Amgueddfa Cymru, y Fframwaith Annog Addysg, data a gasglwyd o ymchwiliad ynglŷn ag astudiaethau amgueddfeydd cyfredol a gwerthusiad llinell waelod ac ansoddol o grwpiau defnyddwyr presennol Sain Ffagan.

Thema'r arddangosfa gyntaf yn Oriel 1 fydd Perthyn / Belonging.

Y Brif Neges

Nid oes y fath beth ag un hunaniaeth Gymreig - mae llawer ohonynt. Bydd yr arddangosfa yn ymchwilio i sut y mae ein synnwyr o bwy ydym, a ble rydym yn perthyn, yn cael ei ffurfio gan iaith, credoau, clymau teuluol a synnwyr o fod yn genedl. Bydd yn dangos bod diwylliant a thraddodiadau yn esblygu'n gyson, a bydd yn holi pa ddyfodol sydd i genedl fel Cymru mewn oes fyd-eang.



Disgyblion Ysgol Gynradd Parc Ninian yng Nghapel Penrhiw

Nodau ac amcanion

Bydd yr arddangosfa yn

Rhoi cyfleoedd i bobl gysylltu yn ffisegol ac yn ddeallusol gyda'r casgliadau, yr archifau a'u storïau. Arbrofi gyda dulliau cyfoes o gasglu, gan ychwanegu at y casgliadau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i anghenion heddiw a'r dyfodol.

Ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau perthnasol i sicrhau bod y casgliadau yn ystyrllon i bobloedd a diwylliannau amrywiol Cymru.

Creu lle hyblyg i ymchwilio i a gwerthuso'r ffyrdd y mae pobl yn creu ystyrllon o'u mewn, yn tynnu ar atgofion ac yn dysgu mewn lleoliad oriel.

Creu arddangosfa sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr sy'n parchu ac yn rhoi cyfleoedd i dderbyn barn ymwelwyr.

Darparu llwybrau dysgu i'r adeiladau hanesyddol a'r arddangosfeydd.



Astudio'r gwrthrychau yn y Pentref Celtaidd

DEFNYDDWYR AC YMWELWYR

Canlyniadau Dysgu

Dyluniwyd yr arddangosfa gan gadw'r canlyniadau dysgu cyffredinol hyn mewn cof:

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Newid a datblygiad diwylliant lleiafrifol mewn oes fyd-eang

Dylanwadau sy'n helpu i ffurfio pobl: teulu; dewis o iaith; credoau a pherthyn i genedl

Sgiliau

Sgiliau allweddol gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, creadigol a deallusol

Cysylltiad â phrosesau sy'n ymwneud â'r amgueddfa

Agweddau, Gwerthoedd a Theimladau

- Datblygu dealltwriaeth fod diwylliant a thraddodiad bob amser wedi bod mewn cyflwr o newid, fod Cymru bob amser wedi bod yn gymdeithas aml-ffydd ac amlieithog

- Ymchwilio i'w credoau a'u dealltwriaeth eu hunain a rhai pobl eraill

- Herio stereoteipiau a chreu lle ar gyfer dadl gyfoes

Mwynhad, Ysbrydoliaeth a Chreadigedd

- Cymdeithasu, mwynhau a chael eich ysbrydoli gan y gwrthrychau sy'n cael eu harddangos

Gweithgaredd, Ymddygiad a Dilyniant

- Mwy o ddiddordeb mewn treftadaeth a bywyd diwylliannol ac ysgogiad i ddod yn ôl i ymweld â'r lle eto

- Darparu cysylltiadau ystyrllon rhwng Oriel 1 a'r adeiladau hanesyddol

- Cysylltu â a sicrhau cyfranogiad gan ymwelwyr yn natblygiad Oriel 1 yn y dyfodol

Yr her i'r amgueddfa yw cadw'r cynulleidfaoedd presennol wrth ddenu rhai newydd, gan ddarparu profiadau gwerth chweil i bawb. Datblygwyd yr holl arddangosfeydd, y testun a'r adnoddau rhyngweithiol gan gadw anghenion defnyddwyr mewn cof. I gael rhestr fanwl o'r cynulleidfaoedd a'u hanghenion, gweler Atodiad A.

DAMCANIAETHAU DYSGU

Mae gwerthuso wedi bod yn sail i'r broses o greu'r arddangosfa hon. Mae'r broses ei hun wedi bod yn brofiad dysgu i bawb sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwaith.

Dylanwadwyd ar y strategaeth gan y beirniadu diwylliannol a geir ar hyn o bryd o swyddogaeth ymwelwyr i amgueddfeydd yn y gwaith o gynhyrchu ystyr. Mae'n tynnu ar y fframwaith Annog Addysg ac ymchwil a meddylfryd cyfredol ym meysydd addysg, astudiaeth o amgueddfeydd, a damcaniaeth dehongli, yn arbennig gwaith George Hein (1998), Eilean Hooper-Greenhill (2002), Louise J. Ravelli (2006), a Freeman Tilden (1957).

I weld cynlluniau manwl o gynnwys yr arddangosfa, gweler Atodiad B.



Athrawon yn gwerthuso llinellau stori posibl

FFURF YR ARDDANGOSFA A DULLIAU ARDDANGOS

Ffurf

Bydd yr arddangosfa yn dilyn 4 prif thema: Lleisiau, Credoau, Teulu a Chenedl. Ymchwilir i bob thema mewn cylchfa benodedig. Mae cylchfaoedd eraill yn rhoi lle ar gyfer sgysiau a gweithdai, ceir ardal i gael archifau ar gyfer gwaith ymchwil a lleoedd lle gall celf gyfoes a/neu arddangosfeydd dros dro yn ymwneud â'r themâu hyn gael eu harddangos.

Gall ymwelwyr gyrchu at a mynd allan o'r arddangosfa o ddau gyfeiriad. Ni ellir pennu ym mha ffordd y dynesir at bob un o'r cylchfaoedd, a bydd hyn yn dibynnu ar yr ymwelwyr a'u hanghenion. Gwelir gwahaniaethu a gweithgareddau ymarferol ym mhob cylchfa.

Dulliau arddangos

Rydym yn derbyn nad yw ystyron a gwybodaeth yn bethau na wneir dim mwy gyda nhw na'u trosglwyddo i ymwelwyr. Maent yn cael eu creu ym meddyliau'r ymwelwyr eu hunain. Daw pobl gyda'u hatgofion, eu syniadau a'u barn eu hunain am wrthrychau ac maent yn mynd â'r hyn y dymunant ei gymryd o'r dehongliadau a roddir gyda nhw.

Ychydig iawn o ddehongli yr oedd yr hen arddangosfeydd yn Oriel 1 yn ei gynnig ac roedd bob amser yn ddiddorol gweld ymwelwyr yn creu eu dehongliadau eu hunain. Ein nod ni yw rhoi gwell fframweithiau iddynt allu gwneud hynny. Rhoddwyd y pwyslais ar greu lle cymdeithasol.

Bydd yn lle cyfoes y gall ymwelwyr ei ddefnyddio wrth eu pwysau, lle gall eu syniadau a'u hatgofion eu hunain gael eu datblygu a'u rhannu.



Profi a gwerthuso ymatebion i wrthrychau

Defnyddio testun

Mae ymchwil yn dweud wrthym fod pobl fel arfer yn cofio 30% o'r hyn a ddarllenant, 50% o'r hyn a welant a 90% o'r hyn y maent yn ei ddweud ac yn ei wneud. Nid yw ymwelwyr yn dod i amgueddfeydd i ddarllen yn bennaf. Noda'r rhan fwyaf o ymchwil cyfoes fod ymwelwyr yn darllen rhyw 18% o'r labeli a ddarperir. Drwy gapsiynau sylfaenol, delweddu gweledol a byrddau negeseuon mae'r testun wedi ei gadw'n fyr gan dderbyn y bydd ymwelwyr yn sefyll ac y gall pobl eraill, gwrthrychau a gwybodaeth yn yr oriel dynnu eu sylw. Bydd testun wedi eu strwythuro i ddarparu tair haen o wybodaeth. Bydd cylchfa caffael archifau yn rhoi cyfleoedd i bobl sy'n dymuno ymchwilio i lefelau dyfnach o wybodaeth wneud hynny wrth eu pwysau. Defnyddir cwestiynau i brocio, i annog yr ymwelwyr i ddilyn ymholiadau personol, ac fel dyfais strwythuro yn y testun i ragfynegi gwybodaeth a gyflwynir yn fuan. I gael rhestr wirio ynglŷn â Defnyddio'r Testun gweler Atodiad C.

Defnydd o wahanol awduron

Mae'r defnydd o awduron ac artistiaid allanol wedi'n galluogi i gyfoethogi'r storïau a ddywedir ac ymchwilio i ymatebion newydd a phersonol i'r casgliadau. Mae'r rhain yn cynnwys ymatebion drwy gelf, barddoniaeth, hanes, fideo, arddangosfeydd wedi eu curadu'n gymunedol a thystiolaethau llafar. Enghraifft fyddai gwaith y cwmni animeiddio *Cinetig* gyda disgyblion o dair ysgol wahanol i gynhyrchu arddangosfeydd fideo ar gyfer yr oriel, yn seiliedig ar ymateb y plant i'r casgliadau a'r themâu a arddangosir.



Defnyddio gwrthrychau

Disgyblion Ysgol Gynradd Neylands yn creu gwaith animeiddio

Rydym wedi ystyried bod creu cyfleoedd i bobl o bob oed a gallu i ryngweithio'n ffisegol ac yn ddeallusol gyda gwrthrychau yn bwysig. Roedd yr oriel yn ei ffurf flaenorol yn annwyl i lawer o ymwelwyr oherwydd apêl y gwrthrychau a oedd yn cael eu harddangos. Helpodd gwerthuso drwy grwpiau ffocws a chynllunio ar gyfer canlyniadau dysgu posibl penodol i oleuo'r dewis o wrthrychau a fydd yn ffurfio'r arddangosfa newydd.

Byddwn yn arbrofi nid yn unig gyda *beth* sy'n cael ei arddangos, ond gyda *sut* y mae'n cael ei arddangos. Mewn rhai enghreifftiau defnyddir gwrthrychau cyfarwydd i alluogi i ymwelwyr gysylltu â, teimlo'n gyfforddus ac ymateb. Mewn rhai eraill, eglurir gwrthrychau anghyfarwydd yn hanesyddol drwy roi yr hyn sy'n cyfateb iddynt heddiw wrth eu hochrau. Mae cyfod gwrthrychau a storïau yn rhoi cyfleoedd i ymchwilio i hanesion a chysylltiadau cyfochrog rhwng atgofion personol a ffurfio hanesion cenedlaethol.

Byddwn yn ceisio cadw nifer o wrthrychau poblogaidd tra hefyd yn dangos eitemau o'r casgliadau nad ydynt wedi cael eu harddangos o'r blaen. Byddwn, cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, yn adnewyddu elfennau o'r arddangosfeydd yn rheolaidd er mwyn cynyddu mynediad at y casgliadau yn ogystal ag am resymau yn ymwneud â chadwraeth. Lle mae eitemau gwreiddiol o ddiddordeb a gwerth hanfodol yn rhy fregus i fod yn cael eu harddangos, neu lle bydd canlyniadau dysgu yn cael eu gwella wrth drin gwrthrychau, byddwn yn ystyried defnyddio replicas. Bydd casgliad o wrthrychau i'w trin nad ydynt wedi eu cofnodi ac i'w defnyddio yn yr Oriel ar gael yn yr ardal Gweithgareddau o dan arolygaeth.



Trafod cadair eisteddfodol a wnaed yn Shanghai

Defnyddio deunydd clyweledol

Mae mynediad cynyddol at ein casgliadau hefyd yn cynnwys mynediad at archifau clyweledol, ar ffurf ffotograffau, recordiau sain o gerddoriaeth a hanes lleol yn ogystal â ffilm a fideo. Mae'r rhain yn cynnwys ein casgliadau ein hunain a rhai sefydliadau cenedlaethol eraill, fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r BBC. Defnyddir offer clyweledol a chyfrifiadurol i gefnogi a dehongli'r casgliadau o ddeunyddiau ac arddangos y casgliadau clyweledol, yn hytrach na thynnu sylw oddi wrthynt. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn defnyddio cyfryngau gweledol i gyfleu negeseuon yn hytrach na'r gair ysgrifenedig.

Defnydd o gymhorthion cyfeirio

Bydd cymhorthion cyfeirio a llwybrau yn creu cysylltiadau thematig rhwng yr oriel ac adran awyr agored yr amgueddfa. Byddant yn creu llwybrau dysgu, gan ddarparu cyd-destun i gasgliadau yn yr oriel a'r adeiladau hanesyddol.

Gweithgareddau

Oherwydd ei natur arbrofol, yr angen i werthuso llwyddiant gwahanol gynlluniau a swyddogaeth yr oriel fel wyneb cyhoeddus strategaeth casglu gyfoes yr amgueddfa, bydd staff wrth law yn yr oriel i:

Ddarparu dehongli wyneb yn wyneb i ddysgwyr ffurfiol ac anffurfiol, gan annog cyfranogiad gweithredol yn y broses o ddysgu a defnyddio elfennau ymarferol yr arddangosfa.

Datblygu rhaglen greadigol a deinamig o ddigwyddiadau, gweithdai, sgysiau a thrafodaethau.

Annog a datblygu cynulleidfaoedd newydd, creu cysylltiadau gydag amrywiaeth o gymunedau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i adnewyddu'r arddangosfeydd a guradurwyd yn gymunedol o fewn yr oriel.



Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i ymholiadau gan ymwelwyr yn ymwneud a themâu'r arddangosfa a gwybodaeth archifol.

Helpu ymwelwyr i wneud cysylltiadau creadigol rhwng themâu'r arddangosfa a'r arddangosfeydd awyr agored, yn ogystal â'r gwrthrychau sy'n cael eu harddangos yn safleoedd eraill Amgueddfa Cymru.

Galluogi gwerthuso llwyddiant y syniadau a'r dulliau dehongli newydd a fydd yn bwydo i mewn i gynlluniau ar gyfer datblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yn y dyfodol.

Hygyrchedd

Byddwn yn ymdrechu o fewn cyfyngiadau'r gyllideb i sicrhau bod cynnwys yr arddangosfa yn hygyrch o safbwynt deallusol a ffisegol i bawb, drwy ddarparu

gwybodaeth drwy ddefnyddio delweddu lle bo hynny'n bosibl yn hytrach na thestun, testun clir a hawdd ei ddeall a fydd ar gael mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd haenau o wybodaeth wedi eu gwahaniaethu arddangosfeydd fideo wedi eu his-deitlo lle bo hynny'n angenrheidiol profiadau cyffyrddol,

cynllun, dodrefn a graffeg arddangosfeydd sy'n rhoi ystyriaeth i faterion DGA (DDA) fel hygrychedd, maint y ffont a lliw, gwelededd ac iaith.

Gwerthuso a Mesurau Perfformiad

Rydym yn gwybod llai am yr ymwelwyr a'r defnyddwyr nag yr hoffem ei wybod. Un o brif nodau'r prosiect yw bod yn ymatebol i'w hanghenion. Byddwn felly yn mesur llwyddiant yr oriel sydd wedi ei hailddatblygu drwy gynnwys ymchwil a gwerthusiad ymwelwyr i'r rhaglen ailddatblygu.

Gwnaed arolwg llinell waelod o'r hen oriel i sefydlu sut y defnyddiwyd yr oriel. Cyflwynwyd yr holiadur fel cynllun peilot gan aelodau o'r tîm prosiect cyn cael ei drosglwyddo i werthuswr allanol ar gyfer yr arolwg terfynol (gweler Atodiad D ac E). Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei chymharu ag arolwg a ddyblygwyd a wnaed yn fuan ar ôl agor yr oriel newydd yn 2007. Mae profi prototeipiau yn ystod gwahanol gamau o ddatblygu'r arddangosfa yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, sefydlir adran o'r oriel ar gyfer gwerthuso gan ymwelwyr a chymheiriaid. Bwriadwn hefyd gynnwys mannau lle gellir rhoi adborth yn yr arddangosfa a fydd yn ei gwneud yn bosibl i adborth yr ymwelwyr gyfrannu at esblygiad yr arddangosfeydd.

ATODIAD A: RHESTR WIRIO O ANGHENION Y GYNULLEIDFA

Defnyddiwr/Ymwelydd	Eu hanghenion	Rhestr Wirio gyfathrebol
Blynyddoedd Cynnar	Cysylltiadau gyda phrofiad bob dydd Cyfleoedd i ddatblygu'r Cam Sylfaen a sgiliau sylfaenol Mae darparwyr gofal yn cael e briffio'n ddigonol	Targedu gweithgareddau misol Gwybodaeth cyn yr ymweliad a hyfforddiant i ddarparwyr gofal Defnyddio agwedd aml-synhwyrol at ddehongli Trin trolïau a gweithgareddau sy'n sefyll yn annibynnol Hyfforddiant ar gyfer yr amgueddfa ynglŷn ag anghenion
Pobl Ifanc	Casgliadau sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes	Rhoi cyfleoedd i gael llais y bobl ifanc trwy guradu arddangosfeydd Gweithio tuag at well defnydd o bobl ifanc ar brofiad gwaith ac fel gwirfoddolwyr
Ysgolion	Ymateb i anghenion y Cwricwlwm Lleoedd eang ar gael ar gyfer briffio disgyblion a/neu weithgareddau Sicrhau bod athrawon wedi eu paratoi yn dda a/neu eu bod yn hyderus i arwain eu hymweliad eu hunain	Gallu i archebu lle ar gyfer gweithgareddau ymlaen llaw Rhaglen o weithgareddau ac adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm Deunyddiau cefnogi ar gyfer athrawon/arweinwyr Sesiynau Hyfforddiant mewn Swydd, ymweliadau ymlaen llaw, gwybodaeth o'r wefan i athrawon. Hyfforddiant i staff o ran anghenion grwpiau ysgol o wahanol oed. Cynhyrchu tair ffilm wedi eu hanimeiddio mewn partneriaeth gyda disgyblion ysgol a Cinetig
Addysg Bellach/Colegau	Dehongli a all ymateb i'w hanghenion penodol	Sgyrsiau/trafodaeth gyda dehonglydd Ardal Darllen a Datgelu i gaffael gwybodaeth archifol
Teuluoedd	Dehongli ar gael ar ystod o wahanol lefelau deallusol yn cael ei arddangos ar wahanol uchderau Gwneud cysylltiadau gyda bywyd bob dydd Lle ar gyfer trafodaeth, mae ar blant angen lle i fod yn ffisegol. Rhaid i destun gefnogi'r oedolion yn y grŵp i annog trafodaethau. Creu llwybrau dysgu i weddill y safle.	Haenau o wybodaeth gan gynnwys: Llyfrynau yn ymwneud â llwybrau ysbiwyr Lleoedd yn yr oriel yn cynnwys lle ar gyfer gweithgaredd a ddyluniwyd ar gyfer plant yn yr adran Teuluoedd lle gallant wisgo dillad replica a thrin gwrthrychau Defnyddio agwedd aml-synhwyrol at ddehongli. Defnyddio ffotograffau/ffilm/sain fel dull o gyfleu teimladau/ negeseuon. Cynhyrchu tair ffilm wedi eu hanimeiddio mewn partneriaeth gyda disgyblion ysgol a Cinetig. Darparu haenau o ddehongli sy'n darparu deunyddiau ar gyfer rhieni os dewisant ddilyn llwybr arbennig yn yr oriel neu allan ar y safle. Hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr mewn dysgu teuluol
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	Creu lle ar gyfer rhannu treftadaeth Cymru yn y gorffennol. Teimlo fod yr oriel yn adlewyrchu profiadau	Arddangos gwrthrychau sydd ag arwyddocâd i gymunedau o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Cysylltu â phrosiectau penodol i hyrwyddo lleisiau eraill. Creu hanesion cyfochrog gyda gwledydd eraill yn y byd.

Dysgwyr Cymraeg	Cyfleoedd i gysylltu â hanes yr iaith Gymraeg. Cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg.	Bydd cylchfa arbennig ar gyfer yr iaith yn rhoi cyfleoedd i ddarllen Cymraeg Canol a chlywed yr iaith yn cael ei siarad. Sgyrsiau/trafodaethau. Cyfleoedd i ymarfer gan ddefnyddio Llwybrau Llafar. Darparu taflenni sy'n adlewyrchu cynnwys GI.
Oedolion	Mae angen i ddehongli fod ar gael ar ystod o wahanol lefelau deallusol. Dylid gwneud cysylltiadau â bywyd bob dydd. Rhaid caniatáu i ymwelwyr gael dewis a rheolaeth dros eu hymweliad. Mae arnynt angen rhywbeth newydd i'w weld ar ymweliadau am yr eildro.	3 haen o destun ar baneli. Llyfrau fflicio gyda storïau syml. Ffeiliau cyfeirio i gael gwybodaeth mwy cymhleth. Annog cysylltiad ar lefel o'u dewis. Arddangosfeydd dros dro sy'n newid bob chwe mis. Hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ynghylch anghenion dysgwyr sy'n oedolion.
Academaidd/ Diddordeb arbennig	Angen lle (wedi ei arolygu) i gasglu ymchwil ac i gael mynediad at wybodaeth fanylach am gasgliadau. Potensial i fod o fudd i bawb.	Elfennau o'r oriel yn cael eu hawduro gan academyddion. Ardal astudio Darllen a Datgelu ar gyfer caffael gwybodaeth archifol. Sgyrsiau/trafodaethau / arolygon gan gyfoedion am agweddau o'r casgliadau. Creu partneriaethau cynaliadwy gydag ymchwil yn cael ei wneud gan brifysgolion mewn Hanes Cymdeithasol, Iaith a Chyfathrebu, ac Arfer o ran Amgueddfeydd.
Tramor	Angen gosod gwybodaeth o fewn cyd-destun lleol a chenedlaethol. Angen sicrhau bod gwybodaeth am gyfeirio a dehongli yn syml ac yn glir ac ar gael yn weledol mewn ieithoedd eraill.	Defnyddio agwedd aml-synhwyrol at ddehongli. Defnyddio delweddau gweledol ar lefel dehongli.

ATODIAD B: CYNLLUNIAU CYNNWYS

CYLCHFA GWEITHGAREDD

SWYDDOGA ETH	OFFER/ CYFLEUSTERAU/ NODWEDDION DYLUNIO	GWRTHRYCHAU	DELWEDDAU
Creu llwybrau dysgu ar gyfer G1	Cistiau arddangos ar gyfer gwrthrychau sy'n cysylltu â themâu mewn orielau. Byddai'r gwrthrychau allweddol hyn yn cael eu defnyddio yn ddyddiol gan ddehonglwr ac yn newid i adlewyrchu'r tymor/ rhaglen gyhoeddus. Mae angen i silffoedd o fewn cistiau fod yn hawdd eu haddasu i ddarparu ar gyfer gwrthrychau bach a mawr. Mae hyn yn creu cyswllt gweledol â gweddill yr oriel. Gwybodaeth – man casglu. Ffyrdd o gasglu gwybodaeth am beth sydd ymlaen yn yr oriel – cysylltiadau rhwng yr oriel a gweddill yr amgueddfa. Lle storio cuddiedig ar gyfer llwybrau/pamffledi ac ati.		Fideo a ffilm – wedi eu dewis o'r archif, Storiâu Digidol BBC Cymru ac ati – pan nad yw 'r lle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill.
Darlith/ sgysiau/ dadleuon/ perfformiad	Arwydd electronig/ arall ar y fynedfa i hysbysebu'r rhaglen wythnosol Lle i 40 eistedd Sgrin nad yw'n nodwedd barhaol Taflunyddion digidol; gliniadur; chwaraewr DVD; rhwydwaith ddi-wifr /CAT5; Amp/ microffon Siart troi (a gedwir mewn storfa yn yr oriel) Digon o socedi yn y llawr Ffyrdd o reoli sain fel nad yw'n rhy uchel i weddill yr oriel Goleuo y gellir ei addasu Mae angen i ddrysau gwydr fod â rhyw ffordd o beidio â denu aflonyddwch o'r tu allan pan fo'r ardal wedi ei chau oddi wrth weddill yr oriel. Hefyd mae angen gallu dweud wrth bobl yn yr oriel beth sydd ymlaen a bod sgysiau ac ati yn cael eu cynnal ar y pryd.		
Gweithdai	Llwyfan y gellir ei dynnu i lawr yn hawdd i greu ardal gyda byrddau a chadeiriau (gyda		

	modd i addasu'r uchder?) Byddai'n dda cael mowldiau o faint A4 yng nghanol y byrddau (i ddal naill ai wrthrychau replica neu ddeunyddiau celf). 1 gert y gellir ei gwrthio o gwmpas i ddal hongwyr cotiau ar gyfer gwisgoedd a deunyddiau. I'w chadw yn un o'r cypyrddau storio. Mae angen iddi fod tua 100cm o uchder x 45cm o ddyfnder x 120cm o hyd. Gyda drychau ar y ddau ben. 1 gert celf y gellir ei symud o gwmpas. 45cm o ddyfnder x 70cm o uchder x 100cm o hyd. 2 gert y gellir eu gwrthio o gwmpas i ddal gwrthrychau replica. 45cm o ddyfnder x 50cm x 50cm. Byddai'n cynnwys gwahanol fathau o silffoedd mewn persbecs. Top gyda silff agored a gwefus 15cm i arddangos gwrthrychau. Gall yr ardal hon fynd yn flêr - dylai'r llawr fod yn hawdd i'w lanhau.		
Sgyrsiau am wrthrychau o'r casgliadau wrth gefn. Lle i ddod â chasgliadau allan mewn ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd.	Gorchudd i'r byrddau i ganiatáu i gasgliadau gael eu harddangos yn ddiogel – angen clustogau cadwraeth.		

LLEISIAU

CIST/DRÔR	Canlyniadau Dysgu Cyffredinol	PROCI0	CYSYLLTU Â	DATGELU	GWRTHRYCHAU	DELWEDDAU
leithoedd Cymru (arddangosfa graffig ar y wal gyda fideo)		Teitl (panel y testun) Mae gan Gymru lawer o leisiau	Enwau rhyw 80 o ieithoedd a gyflwynir ar arddangosfa ar y wal o amgylch sgrin. Mae pobl yn cysylltu â'r iaith a siaradant. Gwahoddiad i ychwanegu ieithoedd coll at y rhestr.	Clipiau fideo gyda sain. Pobl yn cynrychioli eu gwahanol gymunedau ieithyddol yng Nghymru, gan gynnwys iaith arwyddion Prydain.	Dim – mae'n darparu cyd- destun cyfoes i wrthrychau.	Fideo o bobl yn cymysgu â'i gilydd ac yn siarad.
Cist desg uchel cyflwr amgylcheddol + cofadail o garreg. Yr iaith ysgrifenedig hynaf.		Teitl (y panel): Cymraeg: yn dal i gael ei siarad ar ôl 1500 o flynyddoedd.	Arddangosfa graffigol: Adnabod yr enwau Cymraeg Houel a Res mewn arysgrif Lladin. Adnabod y Gymraeg mewn llawysgrifau canol oesol.	Defnyddio llyfrau fflicio i ddatgelu beth mae'r llawysgrifen yn ei gynnwys e.e. y gerdd Brydeinig gynharaf yn Llyfr Aneirin; pwy oedd Hywel a Rhys ac ati; pam yr ysgrifennodd mynaich canol oesol fersiwn Peniarth 28 o Ddeddfau Hywel Dda mewn Lladin ac ati.	Carreg gydag arysgrif arni o'r 9fed ganrif gydag enwau Cymraeg mewn arysgrif Lladin. Llawysgrifau cynnar (yn cael eu newid bob tri mis) e.e. Canu Aneirin (MS Llyfrgell Caerdydd), Llyfr Du Caerfyrddin (MSS LIGC), Llyfrau Deddfau Hywel Dda (MSS LIGC) Os yw'r gwrthrychau mewn câs isel, yna mae angen gwneud yn sicr o'r uchder ar gyfer mynediad i'r anabl/plant.	Ffotograffau o lawysgrifau ac arysgrifau cynnar.
Dim cist – consol rhyngweithiol.	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Nifer yr ieithoedd a siaradir yng Nghymru	Cwestiynau a ddefnyddir i ddewis storïau fideo e.e. Pam	Fformat stori ddigidol. Clipiau fideo yn rhoi atebion i'r cwestiynau sydd o ddiddordeb i'r	Defnydd o ddelweddau archifol, recordiau sain,		Delweddau a fideo (deunydd archifol a deunydd newydd)

Storïau digidol byr yn ymwneud â'r iaith.	heddiw. Bod yn amlieithog yn norm i 2/3 o boblogaeth y byd. Sgiliau. Sgiliau allweddol. Gwerthoedd, agweddau a theimladau. Ymwbyddiaeth o gyfoeth amrywiaeth ieithyddol.	poeni os yw ieithoedd yn marw? Sut y dywedaf yn laith Arwyddion Prydain? Pam fod cymaint o Jonesiaid yng Nghymru? Beth yw'r cyswllt rhwng Cymraeg a Bengali?	defnyddiwr.	lleisiau arbenigwyr, tystiolaeth bersonol i ddatgelu atebion.		
Cist 3 Stori goroesiad: Cymysgedd o wrthrychau eclectig sy'n dweud storïau am yr iaith Gymraeg.	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Tarddiad y Gymraeg, Mathau o Gymraeg ysgrifenedig gynnar. Amlyieithog cynnar. Sgiliau. Sgiliau deallusol. Gwerthoedd, agweddau a theimladau. Agweddau tuag at y Gymraeg.	Gwrthrychau eclectig a'r ffordd y byddant yn cael eu harddangos a fydd yn procio	Panel syml bychan gyda labelu mewn amlinell gyda llyfrau fflicio i gyflwyno mwy o haenau o wybodaeth.	Bydd llyfr fflicio yn dweud y stori y tu ôl i bob gwrthrych – pam fod gan y gwrthrych rywbeth i'w ddweud am oroesiad yr iaith Gymraeg.	Beibl 1588; ffiguryn o Griffith Jones, Llanddowror; y Welsh Not, medalau'r Rhyfel Byd Cyntaf; peiriant recordio cynnar (1930au); Arwydd ffordd ar gyfer Capel Celyn; Arwydd ffordd wedi ei chwistrellu gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg; Tegan Super Ted; Fersiwn Gymraeg o Scrabble; ffôn symudol gynnar.	Delweddau o wrthrychau sy'n cael eu defnyddio ac sy'n ymwneud â deunydd ffotograffig ac archifol e.e. Welsh Not, mewn llyfr fflicio.

CREDOAU

CIST	Canlyniadau Dysgu Cyffredinol	PROCIO	CYSYLLTU Â	DATGELU	GWRTHRYCHAU	DELWEDDAU
------	----------------------------------	--------	------------	---------	-------------	-----------

Ochr o agwedd 1 ac 8	Creadigedd, ysbrydoliaeth a mwyniant. Darparu synnwyr o Gymru fel cenedl aml-ffydd.	Defnyddio barddoniaeth i ysgogi cywreinrwydd – Dic Jones i fod yn awdur yn y Gymraeg, Gillian Clarke yn Saesneg.				
Agwedd 1 Agwedd 1 Cymru heddiw	Gwybodaeth a dealltwriaeth Gwybodaeth am ddarganfyddiada u'r Cyfrifiad diwethaf: Cristnogaeth (72%); Hindwiaid Indiaidd a Bwdhyddion gwyn; Iddewon gwyn a Siciaid Sikhiaid Indiaidd a rhai heb grefydd. Sgiliau Sgiliau deallusol – darllen, meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol. Sgiliau allweddol – defnyddio TGCh	Datganiad ar y gist Cymru aml-ffydd	Cysylltu hyn â'ch ffydd eich hun	Llyfr fflicio Gwybodaeth o ddarganfyddiada u'r Cyfrifiad Dyfyniadau a defnyddio barn pobl eraill am eu credoau. Ffilm o seremonïau cyfoes. Cyswllt â'r agwedd nesaf – nodiadau canran ohonom ni fel Cristnogion (72%)	Gwrthrychau yn adlewyrchu data'r cyfrifiad a'r gwahanol fathau o ffydd sy'n cael eu rhestru e.e. Crys T 'Mwslim Cymreig'. Addunedau Priodas Sifil Animeiddiad fideo wedi ei gynhyrchu gan Cinetig ac Ysgol Gynradd Parc Ninian i'w dangos ar gefn y wal Darllen a Datgelu.	Yn sgrin y gist: Delwedd o eglwys a/neu gapel cyn ei symud i'r Amgueddfa? Llun o Gapel wedi ei droi yn Fosg.

	Gwerthoedd, agweddau a theimladau Cynyddu ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â chredoau yng Nghymru. Ymchwilio i strwythurau credo bersonol.					
	Creadigedd, ysbrydoliaeth a mwynhad Hwyl yn ymchwilio i gredoau personol					
Agwedd 2 Cenedl o Gapelwyr?	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth am Anghydfurfiaeth ac ehangiad crefyddau eraill yng Nghymru yn ystod y 19eg ganrif fel rhan o'r Chwyldro Diwydiannol	Cenedl o gapelwyr? Ymwelodd mwy o bobl â'r dafarn nag â'r capel? Neu ddyfyniad o bapur newydd o'r cyfnod ac ati.	Labelu electronig. Rhif 1 gyda gallu i fod â sain (wedi ei rannu gydag Agwedd 3). Darluniau o Gapel yn cael eu defnyddio. Mudo yn creu lluosogrwydd o enwadau crefyddol yng Nghymru a		Eiconograffiaeth o arweinwyr crefyddol. Eiconograffiaeth o anghydfurfwyr gwleidyddol. Ffiguryn o Christmas Evans. Cadeiriau pregethu. Cyfrifiad crefyddol 1851. Gweddi.	Enghreifftiau niferus o gapeli yn cael eu defnyddio. Braslun o Christmas Evans.

	Sgiliau Sgiliau deallusol – cyfle i ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau a ffynonellau i greu barn gytbwys am y gorffennol Gwerthoedd, agweddau a theimladau. Herio agweddau tuag at Anghydfurfiaeth.		gwrthdaro mewn credoau. Llwybr dysgu i Capel Penrhiw (llwybrau posibl yn cael eu cadw ar y seddi i bobl eu cymryd allan ar y safle ac yn y Capel/ar y we/lawr lwytho ar ffôn symudol?). John Davies i fod yn awdur testun ar gyfer label electronig.			
--	---	--	---	--	--	--

Agwedd 3 Pregethu'r efengyl	Gwybodaeth a dealltwriaeth Ymchwilio i ffyrdd y mae ffydd yn mudo ac yn datblygu e.e. effaith cenhadon ar Gymru a gwledydd eraill e.e. blynyddoedd rhwng y rhyfel, plant ysgol Cymru yn canu caneuon gwerin mewn Bengali; 'zenanas' mewn capeli	Credoau ar Symud Dyfyniad o un o'r emynau a ysgrifennwyd i ganmol y berthynas rhwng Cymru a Gogledd Ddwyrain India neu gan genhadwr neu'r sefyllfa mewn rhai gwledydd heddiw? Arddangos hyn ar wydr?	Labelu electronig. Rhif 1 gyda'r gallu i fod â sain (yn cael ei rannu gydag agwedd 3). Enghreifftiau o'r organ yn cael ei chwarae fel rhan o fathau o gerddoriaeth Indiaidd. Enghreifftiau o ganeuon mewn Bengali. Enghraifft o anthem pobl Casia, 'Ri Khasi, Ri Khasi' wedi ei gosod ar alaw 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Barddoniaeth gan Nigel Jenkins am genhadon o Gymru yng Nghasia. Nigel Jenkins i ysgrifennu'r testun.	Mwy o wybodaeth efallai yn yr ardal eistedd. Crefydd fel offeryn imperialaeth Hanes teithiau unigolion y tu ôl i wrthrychau detholedig.	Gwrthrychau yn ymwneud â ffydd a gasglwyd gan Genhadon (Corn) Bocs casglu (1900 Y Llafurwyr yn brin a'r cynhaeaf yn fawr) F76.196/8 Cenhadon Bryniau Casia a Jaintia. Llyfrau Cofnodion (1869-1913) GN 0222 BMSSKJ Organ y cenhadon Harmoniwrm modern Casgliad o arteffactau brodorol o flynyddoedd olaf y 19eg ganrif a gafwyd gan genhadon Presbyteraidd Cymru yn India e.e. offer amaethyddol, bowlenni, basgedi, drymiau F79.241.4-25	
	Sgiliau deallusol – gwneud cysylltiadau â pherthnasau rhwng pethau.					
	Sgiliau cyfathrebu – gwrandao.					
	Gwerthoedd, agweddau a theimladau. Herio stereoteipiau a chwedloniaeth genedlaethol					

Agwedd 4 Cymru Gatholig	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Oed Eglwys Sant Teilo	Labelu electronig rhif 2 (i'w rannu ag agwedd 4)	Efallai ychwanegu hyn fel rhan o ddathlu agor yr Eglwys - clipiau fideo ar gefn yr archif. Sgrîn arddangos fawr. Ffilm o'r broses cadwraeth, ail-greu sgrin grog, peintiadau ar y wal ac ailadeiladu'r Eglwys.	Peintiad o Santes Catherine ar y wal (1380)	Delwedd Peintiad ar y wal yn cael ei dynnu i lawr	
	Dyfnhau dealltwriaeth a datblygu llythrennedd gweledol o'r pwnc		Egluro negeseuon gweledol				Medal Pererin 38.17/1
	Sgiliau		Cyfleoedd i dynnu llun stori heb unrhyw eiriau				Celf uchel Gatholig
	Sgiliau allweddol – dysgu sut i ddysgu – llythrennedd gweledol		Llwybr dysgu at yr Eglwys. Cyswllt rhwng replica a gwrthrychau go iawn (llwybrau posibl yn cael eu cadw ar y seddi i bobl fynd â nhw allan ar y safle ac yng nghanban yr eglwys?)				Cwpan cymun Dolgellau a phatent(1230)
	Gwerthoedd, agweddau a theimladau		John Morgan-Guy i ysgrifennu'r testun				Diptych ifori (canol y 14eg ganrif)
	Agwedd tuag at Gatholigiaeth						Ffigur crog o Kemeys (1300au)
Creadigedd, ysbrydoliaeth a mwynhad. Gweld paentiad ar y wal		Teitl Abaty Castell Nedd					
Ymddygiad, cynnydd							

Agwedd 5 Credoau ar Symud	Gwybodaeth a dealltwriaeth Sut mae amgueddfeydd yn gweithio a pham fod ganddynt rai casgliadau arbennig	Y Darlun Mawr Bydd y gwrthrychau eu hunain yn procio'r meddwl oherwydd eu bod yn cael eu harddangos gyda'i gilydd mewn cyd-destun hanes cymdeithasol.	Y gwrthrychau eu hunain	Labelau electronig rhif 2 (a rennir gydag agwedd 5) Sut, pam a phryd y daeth gwrthrychau yn rhan o gasgliadau'r amgueddfa? Eilunaddoliaeth Cyfateb gwrthrychau yn dyddio o'r un cyfnod a dadansoddi hanesion cyfochrog.	Guanyin Tsieineaidd (1400au) Peintiadau Kalighat (delweddu Hindwaidd, Mwslemaidd a Christnogol) (rhifau 16 + 17 + 18 + 19) Lliain allor Iddewig F79.243.9 Cyhoeddiad Tystion Jehofa (1940au) F85.129 Cofgolofn sant Francis o Assisi F74.120 Rhaglen cymanfa ganu (1901-54) F74.109/153-161	
	Sgiliau Sgiliau deallusol - dadansoddi tebygrwydd rhwng symbolaeth. Ymchwilio i ddaliadau gwahanol grefyddau					
	Gwerthoedd a theimladau. Agweddau tuag at wahanol greduau. Gwerthoedd a rennir.					

	Creadigedd, ysbrydoliaeth a mwynhad. Meddwl am beth ddigwyddodd mewn gwahanol rannau o'r byd o fewn ffrâm amser benodedig.					
Agwedd 6 Paganiaeth a chredoau poblogaidd	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Storïau yn egluro'r gwahanol gredoau Sgiliau Sgiliau deallusol – darllen symbolau Gwerthoedd, agweddau a theimladau Herio tybiaethau a barn pobl eraill.	Credoau poblogaidd Gwrthrychau eu hunain yn procio Paganiaeth	Labelau Electronig Rhif 3 gyda gallu i fod â sain Storïau gwahanol swynion Ryseitiau meddyginiaethau gwerin Sut roedd swynion yn cael eu gwneud wedi ei egluro drwy dystiolaeth lafar Cysylltu â'r Pentref Celtaidd a thymhorau blynyddol. Hanesion a storïau llafar i egluro pam fod rhai lleoedd yn	Angen credu mewn rhywbeth i gael gwarchodaeth ac ati Perthynas rhwng paganiaeth a chrefydd ffurfiol e.e. y Tri Brenin, y Geni Gwyrthiol ac ati Symbolaeth	Swyn rhag dewiniaeth Swynion ffynhonnau Esgidiau Sarn wedi eu rhoi mewn wal Llyfrau o luniadau seryddol Cerrig Gwiberod Llangynwyd Gwisgo hen daten i warchod rhag cryd cymalau 'Mummy cat' Staes Caseg feddi Meddyginiaethau gwerin Paganiaeth Dyn gwyrdd (bywyd tragwyddol) Dyn gwiaill Cangen o goeden Swynion ffynhonnau Pennau carreg	Delweddau o wrthrychau a ganfyddir

			gysegredig? Posibilrwydd o ychwanegu arogleuon? Perllysiau? Llwybr dysgu i'r Pentref Celtaidd (Llwybrau posibl i gael eu cadw ar y seddi i bobl eu cymryd allan ar y safle)		Casgliad William Price	
Agwedd 7 Arddangosfa wedi ei Churadu yn y Gymuned	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Ffeithiau a natur y pwnc	Ein Cymuned	Llyfr fflicio – cyfweiliadau gyda chyfranogwyr		Arddangosfa wedi ei churadu yn gymunedol Bydd yn newid yn flynyddol Ar gyfer 2007 – y ffydd Islamaidd – gwrthrychau wedi eu curaduro gan SMYLe Cymuned Foslemaidd	
	Sgiliau					
	Sgiliau cyfathrebu - annog cyfathrebu rhwng cymuned benodol ac ymwelwyr Gwerthoedd, agweddau a theimladau Ymchwilio i empathi a goddefgarwch tuag at Islam					

TEULU

CIST/DRÔR	Canlyniadau Dysgu Cyffredinol	PROCI0	CYSYLLTIAD	DATGELU	GWRTHRYCHAU	DELWEDDAU
Cist 3 cist fawr Diwylliant perthnasol yn gysylltiedig â geni, marwolaeth a phriodi ac yn ymwneud ag adeiladau hanesyddol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth am ddefodau newid byd teuluoedd oedd yn byw yn nhai Rhyd-y-car Sgiliau Sgiliau deallusol, allweddol a chyfathrebu Sgiliau rheoli gwybodaeth Mwyniant, ysbrydoliaeth a chreadigedd Ymweliad cefnogol i'r safle	Roedd adeiladau yn yr amgueddfa yn perthyn i gymunedau a theuluoedd	Profiad i ymwelwyr Defnyddio gwrthrychau a delweddu mawr yng nghefn y gist i greu cyswllt â chyd- destun hanesyddol	Albwm Teuluol Sain Ffagan - mawr Rhyngweithiol ar y wal (sgrin cyffwrdd) Creu albwm o ffotograffau rhyngweithiol gan gynnwys ffotograffau o dai hanesyddol yn eu lleoliad gwreiddiol a llun o'r bobl oedd yn byw yno	Gwrthrychau gynacolegol ee gefel (1890-1940) Poteli bwydo babanod Gwasgblat Crud Swynion/ bedydd Teganau Gemau Platiau er cof Arch Gemwaith galar Elor	Delweddu mawr o'r fam yn cario baban, ffasiwn yng Nghymru; 'The Bidding Scene' a phoster o Golera ym Merthyr
Hanes llafar – rhyngweithiol (cornel o ardal 14 i'r chwith o'r gist)	Gwybodaeth a dealltwriaeth Gwybodaeth ddyfnach o fywyd teulu/cymuned yn y gorffennol a'r presennol Sgiliau		Dyfyniadau yn ymwneud â digwyddiadau mewn bywyd teuluol	Clipiau sain yn cael eu gyrru gan sgrin gyffwrdd ynghyd â delweddu		

	Sgiliau cyfathrebu – gwrando Newid mewn agweddau a gwerthoedd tuag at eraill					
Ardal i blant ryngweithio gyda dillad replica	Sgiliau Allweddol, cyfathrebu a chymdeithasol Sgiliau creadigol Mwyniant, ysbrydoliaeth, creadigedd Cael eich ysbrydoli a'r cenedlaethau yn dysgu oddi wrth ei gilydd Newid mewn agweddau a gwerthoedd	Teitl: Plantos – i'r ymwelwyr iau Cwestiwn ar y wal gefn: Pwy a'ch dysgodd i reidio beic? Cwestiwn ar y wal ochr: Rhowch gynnig ar wisgo'r rhain. Sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo?	Wal gefn: beic mawr mewn cist gydag ardal holi ac ateb isod (bwrdd magnetig efallai a blwch postio) Wal ochr: 5 o begiau dillad gyda 5 o ddrychau mawr rhyngddynt. Ardal ganol: bwrdd bach crwn gyda ffynnon yn y canol i bensiliau a chardiau post i ysgrifennu/tynnu llun ymatebion	Cyfleoedd i astudio adborth pobl eraill fel ysbrydoliaeth i'ch atgofion eich hun i greu trafodaeth rhwng y genhedlaeth hŷn a'r genhedlaeth iau		
Arddangosfa wedi ei churadu yn gymunedol ar ddreser fach o arddull IKEA (yn wynebu dreser hanesyddol) Strwythur mawr gyda blychau	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth am wahanol gymunedau Sgiliau Sgiliau deallusol ac allweddol Mwyniant, ysbrydoliaeth a	Yr arddangosfa ei hun	Gwrthrychau wedi eu dewis gan grŵp ieuenctid Penynglyn	Llyfr fflicio Egluro gwrthrychau - unigolion o grwpiau cymunedol yn ysgrifennu'r testun	Gwrthrychau o'r gymuned	

mawr wedi eu gwydro y gellir eu cloi gyda labeli wedi eu hysgrifennu â llaw oddi tanynt.	chreadigedd Cael eich ysbrydoli i feddwl am sefyllfa bersonol					
Dreser hanesyddol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth am wahanol wrthrychau a chyd-destun cymdeithasol. Sgiliau Sgiliau deallusol ac allweddol	Bydd yr arddangosfa ei hun yn procio	Y gwrthrychau eu hunain	Labeli electronig Delweddau detholedig o wrthrychau a gwybodaeth am eu defnydd	Platiau Jygiau Lluniau	
Yr ardal eistedd rhwng 2 ddreser	Gwybodaeth a dealltwriaeth Dealltwriaeth ddyfnach o gasgliadau gwahanol gymunedau Sgiliau Sgiliau deallusol ac allweddol			Gallu i fod â ffeiliau y gellir eu tynnu allan gan gynnwys lefel bellach o wybodaeth		Delweddau o wrthrychau a deunydd archifol
Lle ar wal fideo Animeiddio Cinetig	Mwyniant, ysbrydoliaeth a chreadigedd. Cael eich ysbrydoli gan ddehongliadau plant. Gweler gwrthrychau fel animeiddiadau.					Crëwyd gan Ysgol Neylands a Cinetig
Llwy garu	Gwybodaeth a			Cyfleoedd i greu		

ryngweithiol	dealltwriaeth Dealltwriaeth ddyfnach o symbolau Sgiliau TGCh Mwyniant, ysbrydoliaeth a chreadigedd Dyluniad creadigol a hwyl			eich llwy garu eich hun a'i e- bostio adref i rywun		
--------------	---	--	--	--	--	--

CENEDL

CIST/DROR	Canlyniadau Dysgu Cyffredinol	PROCIO	CYSYLLTU Â	DATGELU	GWRTHRYCHAU	DELWEDDAU
Cist 1 Regalia'r Orsedd	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Dyfeisio ac ailddyfeisio traddodiadau Pwy sy'n defnyddio'r regalia heddiw Sgiliau Sgiliau deallusol – gwneud cysylltiadau rhwng gwrthrychau a chyd-destun Sgiliau sylfaenol a chyfathrebu Gwerthoedd, agweddau a theimladau	Cwestiwn: Mae'r gwrthrychau hyn yn dal i gael eu defnyddio. Gan bwy?	Ffilm o'r seremoni. Deall sut roedd y gwrthrychau sy'n cael eu harddangos yn cael eu defnyddio	Llyfryn fflicio 2 dudalen yn cynnwys gwybodaeth a delweddau i gysylltu'r gwrthrychau gyda stori'r Eisteddfod gyntaf gyda'r Orsedd ym 1819 ac egluro sut y creodd lolo Morgannwg yr Orsedd. 5 tudalen Esboniadau o symbolau gyda chyfleoedd i gyffwrdd. Dyfyniadau gan	Cleddyf lolo Morgannwg Medalau – Medal 1789; Medal 1819; Medal TH Thomas 1897; T.H. Thomas Alegori Farddol; Gwrthrychau pren yr orsedd; Coron yr Archdderwydd; Dwyfronneg, Teyrnwialen modrwyau (x2) a medalau; Cleddyf crwn yr Orsedd; Corn Hirlas; Gwialen yr Arwyddfardd.	Panel graffigol Llyfryn fflicio Darluniau agos o symbolau a geiriau a gwrthrychau. Delwedd fach o wrthrychau Ffilm o'r seremoni gyda throsleisio o Eisteddfod ddiweddar. Cyfweliadau gydag enillwyr. Darnau o

	Natur gyfnewidiol symbolau a’u defnydd			bobl sydd wedi gwisgo regalia gan ganolbwyntio ar liw. Nod Cyfrin; Alegori Farddol; Mesen, Derwen ac Uchelwydd, Ogam, ‘Gwir yn erbyn y Byd’ Cyfle i gyfansoddi darn o gerddoriaeth/ ysgrifennu enw gan ddefnyddio gwyddor farddol	Enghreifftiau o wyddor farddol	Swigs/lolipops
Cadair Eisteddfodol, a wnaed yn Shanghai ar gyfer Eisteddfod Wrecsam 1933	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Pam y rhoddir cadair fel gwobr a beth mae’r symbolau a ddefnyddir yn ei olygu Sgiliau Sgiliau deallusol – Darllen ystyron symbolau Gwerthoedd, agweddau a theimladau Natur gyfnewidiol symbolau a’u defnydd. Symbolau a rennir/a fenthycir	Capsiwn Gwnaed yn China	Llyfryn fflicio yn cynnwys gwybodaeth am y modd yr oedd y gadair yn cael ei gwneud. Dyfyniadau gan Brynley Richards. Gallu i gyffwrdd a theimlo symbolau mewn llyfr fflicio. Esboniadau o symbolau gan aelodau o gymunedau Tsieineaidd gan gynnwys: Draig 2 dduwies Gwir yn erbyn y byd Arysgrif Tsieineaidd Llun o Gwenallt gyda chadair debyg arall 1926		Cadair Shanghai	Y gadair gyda’r gwneuthurwyr – delwedd wedi ei chwyddo
	Gwybodaeth a		Defnydd o baneli ar	Sgrŵn gyda	Posterï;	Delweddau

Eisteddfod arall – Maes B	dealltwriaeth Gwybodaeth am Maes B Gwerthoedd, agweddau a theimladau Natur gyfnewidiol yr agwedd tuag at yr Eisteddfod		ddull poster i egluro protest, gigiau ac ati	delweddau o Faes B	bathodynau, tocynnau	Maes B cyntaf 1997; Twrw Tanllyd ac ati; pabell roc ar y maes 1982; ffilm o John Redwood
DRORIAU ar gyfer tair ardal	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Ennill gwybodaeth ddyfnach o wybodaeth flaenorol Sgiliau Deallusol a rheoli gwybodaeth – dysgu sut i ddysgu Tystiolaeth o fwynhad, ysbrydoliaeth a chreadigedd Cyfleoedd i ddilyn llwybrau dysgu personol			Llyfrynau fflicio i roi gwybodaeth ym mhob drôr Recordiad a data am bob medal ac ati	MEDALAU (x1) ARCHIFAU PAPUR (x2)	
BLWCH RECORDIAU 2 flwch arddangos	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Cerddoriaeth o wahanol gyfnodau hanesyddol Cyd-destun byd-eang i	Blwch Recordiau yn chwarae cerddoriaeth o wahanol gyfnodau gyda sgrin fechan i ddangos delwedd	Ffurf mae pawb yn gyfarwydd â hi. Panel arddangos gyda delweddau o gantorion pop ac ati	Blychau arddangos / arddangosfa ar y wal Datgelu cerddoriaeth sy'n cael ei chwarae ar wahanol gyfnodau	Blwch Recordio MP3 gyda'r gallu i ddangos y 10 uchaf	Cerddoriaeth ar ddalenni papur Delweddau o fandiau Cloriau recordiau

	gerddoriaeth Gymreig a'r tŷ yn yr Amgueddfa Sgiliau Sgiliau deallusol a chyfathrebu Mwynhad, ysbrydoliaeth, creadigedd Hwyl a rhyfeddod gobeithio	o'r gerddoriaeth/ band		yn cysylltu â thai, Siantio Canol Oesol, Robert ap Huw (1613) Caneuon gwerin 1700-1900 1910- corawl, bandiau pres 1920 – Jazz 1950au – Adloniant Ysgafn 1960au – Caneuon protest (canu gwlad, Elvis, Beatles) Recordiau Cymraeg cyntaf Huw Jones – Dŵr ac ati		
Cist 1 Cerddoriaeth	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Dyfnhau dealltwriaeth o'r ffyrdd y defnyddir offerynnau Sgiliau Mwynhad, ysbrydoliaeth, creadigedd Y modd y defnyddir offerynnau	Y gwrthrychau eu hunain	I'r Blwch Recordiau	Gwybodaeth yn y Blwch Recordiau neu ffeil gyfeirio Enghreifftiau o bobl yn canu offerynnau, delweddau o gorau, dyfyniadau o bapurau newydd y cyfnod	Telyn Crwth Pibgorn Cwpan Caradog	
Cist 2 Chwaraeon	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Dyfnhau dealltwriaeth o chwaraeon	Cenedl sy'n hoff o chwaraeon ac eto un o'r cenhedloedd	Gwrthrychau o chwaraeon i herio'r syniad o 'Genedl sy'n hoff o	Sgrîn dim sain (ar gyfer y gist hon) Ystadegau iechyd	Pêl rygbi Crys rygbi Gareth Edwards' Esgidiau	

		mwyaf afiach yn Ewrop? Testun ar ffilm	Chwaraeon'	yng Nghymru v clipiau o gemau mewn gwahanol chwaraeon	Gavin Henson Esgidiau Colin Jackson Cap Tanni Grey - Thompson Menyg bocsio Jim Driscoll	
Cist 3 Symbolau Cenedlaethol	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Dyfnhau dealltwriaeth o symbolau cenedlaethol	2 wahanol fathau o wisgoed			Gwisg Gymreig 'draddodiadol' Gwisg 'Cool Cymru'	Delweddau o ddyfeisio'r wisg Gymreig
Cist 4 Traddodiadau	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Dyfnhau dealltwriaeth o draddodiadau cenedlaethol	Y gwrthrychau eu hunain	Sioe sleidiau o ddelweddau archifol a ffilm o bobl yn defnyddio gwrthrychau.	Gwybodaeth yn y ffeil Llyfrau fflicio ar y seddau Esboniadau am draddodiadau	Mari Lwyd Calennig Blwch dryw Gwasail	Delweddau o bobl yn defnyddio'r gwrthrychau

ATODIAD C: RHESTR WIRIO AR GYFER YSGRIFENNU TESTUN

	Ceisiwch	Osgowch
Clir	bod yn eglur ynghylch beth rydych yn ceisio ei ddweud. Cadwch y cymhleth ar gyfer ffeiliau cyfeirio. Defnyddiwch eiriau cyfarwydd a geiriau sensitif i gyd-destun. peidiwch â thybio bod yr ymwelydd wedi darllen unrhyw beth arall yn yr oriel. symudwch o'r cyfarwydd at yr anghyfarwydd, o'r diriaethol i'r haniaethol. sefydlwch y cyfeiriad at y pwnc/thema/gwrthrych yn glir a chadwch ato.	defnyddio unrhyw ymadrodd na fydddech yn disgwyl i rywun 15 oed ei ddeall yn rhesymol. dibynnu ar y testun i wneud llinell y stori yn glir: dyma brif bwrpas y pennawd.
Cryno	penderfynu pa wrthrychau sydd angen eu dehongli er mwyn i'r ymwelwyr greu ystyron dechreuwch gyda'r pwyntiau pwysicaf; peidiwch â'u gadael tan y diwedd defnyddiwch un syniad ar gyfer pob brawddeg ac un pwnc ar gyfer pob paragraff cadwch frawddegau yn fyr ar wahân i rai yn y ffeiliau cyfeirio cyflwynwch syniadau yn hytrach nag esboniadau hir derbyniwch fod llawer o ymwelwyr yn sganio ac nid yn darllen y testun	ysgrifennu yr hyn y gellir ei weld
Cyson	defnyddio arddull tŷ Amgueddfa Cymru	
Brwdfrydig	defnyddio'r modd gweithredol yn hytrach na'r goddefol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl defnyddiwch ragenwau personol (chi, fi) a geiriau neu ymadroddion eraill sy'n sensitif i gyd-destun (y teganau hyn ac ati) tynnwch ar y cof a'r synhwyrau	ysgrifennu am bethau nad ydynt o ddiddordeb i chi osgoi'r ffurfiol a'r amhersonol
Perthnasol	cysylltwch yn uniongyrchol â gwrthrych(au) dywedwch storïau yn hytrach na rhestru ffeithiau angorwch ddeunydd newydd mewn profiadau bob dydd cysylltwch â neu cyfosodwch yr ystyron sy'n cael eu cyfleu yn ôl y modd y mae'r gwrthrychau yn cael eu harddangos gwahoddwch gyfranogiad anogwch y darlennydd i feddwl am gyfatebiaeth	

ATODIAD D: AROLWG YMWELWYR

GWERTHUSO'R ORIELAU DAN DO YN SAIN FFAGAN

gan

Clare Elizabeth Parry

yn gweithio gyda Thîm Prosiect Oriel 1

2005

Cynnwys

Cefndir a methodoleg

Ystadegau cyffredinol ynglŷn ag ymwelwyr i'r amgueddfa

Crynodeb o gynnwys yr Oriel Dan Do

Canlyniadau a dadansoddiad

Casgliad

Cefndir a methodoleg

Bwriedir adnewyddu'r Oriel Diwylliant Materol (Oriel 1) yn Amgueddfa Werin Cymru. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r modd y mae ymwelwyr i'r amgueddfa yn cael profiad o'r orielau dan do ar hyn o bryd, penderfynwyd gwneud arolwg o ymwelwyr. Cynlluniwyd holiadur ar ffurf cyfweiliad wedi ei led-strwythuro rhyw ugain munud o hyd gan dîm Oriel 1 ac aethant ati i gynnal cam cyntaf y gwerthusiad yn ystod Mehefin 2005. Penderfynwyd y dylai rhywun mwy gwrthrychol weithredu ail gam y gwerthusiad a gwahoddwyd Claire Elisabeth Parry, myfyriwr ymchwil am ddoethuriaeth, i gynnal yr holiaduron rhwng Gorffennaf 6ed ac 11fed 2005.

Penderfynodd yr ymchwilydd gynnal cyfweiliadau ar dri diwrnod yn ystod yr wythnos (dydd Llun 6ed, dydd Mawrth 7fed a dydd Mercher 8fed o Orffennaf) ac ar ddau ddiwrnod yn y penwythnos (dydd Gwener 10fed a dydd Sadwrn 11eg o Orffennaf). Gadawyd dydd lau yn rhydd i gyfarfod i gynllunio trydydd cham y gwerthusiad a fyddai'n ymwneud â grwpiau ffocws. Roedd y tywydd yn braf bob dydd er ar ddydd Gwener 10fed o Orffennaf roedd y tywydd ar ei fwyaf cyfnewidiol: golygia hyn fod llawer o ymwelwyr yn awyddus i ddod i weld yr amgueddfa awyr agored yn gyntaf rhag ofn y byddai'n dechrau bwrw, pryd y gallent ddychwelyd wedyn i'r orielau dan do.

Ar y diwrnod cyntaf (6 Gorffennaf) lleolodd y myfyriwr ei hun yn yr awyr agored ger ardal bicnic y Bwyty, ac fel arfer byddai'n mynd at yr ymwelwyr ar ôl iddyn nhw fynd drwy'r adran dan do ar eu ffordd i'r tu allan. Ar adegau eraill aeth at yr ymwelwyr oedd yn crwydro ar y llwybrau. Yn gyffredinol roedden nhw'n fodlon siarad yn yr awyr agored naill yn sefyll yn llonydd neu yn cerdded ar hyd y llwybr gyda'r myfyriwr. Oherwydd ei bod yn hynod o flinedig iddi sefyll drwy'r prynhawn aeth yr ymchwilydd ymlaen i wneud gweddill y gwerthuso drwy sefyll y tu allan i'r Orielau dan do lle'r oedd mainc neu seddi. Aeth at bobl wrth iddynt fynd allan o'r Orielau. Roedd hyn yn fanteisiol hefyd oherwydd roedd yn golygu y gellid gwahodd ymwelwyr i eistedd gyda'r ymchwilydd i fynd drwy'r cyfweiliad.

Oherwydd bod llawer o ymwelwyr hŷn ar deithiau bws wedi eu cynrychioli yng ngham cyntaf y gwerthusiad (o dan arweiniad curadur), roedd yr ymchwilydd yn arbennig o awyddus i sgwrsio â phobl ifanc, teuluoedd ifanc a phlant; a mynd at y grwpiau hyn oedd y flaenoriaeth. Er hynny aeth yr ymchwilydd at bobl hŷn er mwyn cael cynrychiolaeth fwy cytbwys o ymwelwyr i'r amgueddfa am y dyddiau yr ymdrinnid â hwy. Golygai'r gogwydd hwn nad oedd yr ymchwilydd yn defnyddio'r dull o gyfweld pob trydydd neu bedwerydd grŵp oedd yn mynd heibio. Cyflawnwyd y cyfweiliadau rhwng 11.30 am a 4 pm ar bob achlysur.

Cynhaliwyd pum deg o gyfweiliadau i gyd, gyda thri ohonynt yn yr iaith Gymraeg. Roedd natur y cyfweiliad wedi ei led-strwythuro yn darparu data y gellid ei ddadansoddi mewn dull oedd yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol ac ansoddol.

Ystadegau cyffredinol am ymwelwyr i'r Amgueddfa

Dydd Llun 6ed Gorffennaf	989 o ymwelwyr
Dydd Mawrth 7fed Gorffennaf	1165 o ymwelwyr
Dydd Mercher 8fed Gorffennaf	1677 o ymwelwyr
Dydd Gwener 10fed Gorffennaf	1326 o ymwelwyr
Dydd Sadwrn 11eg Gorffennaf	3015 o ymwelwyr

Crynodeb o gynnwys yr Oriel Dan Do

Mae Sain Ffagan yn cynnwys amgueddfa yn yr awyr agored a dan do. Yma rhoddir crynodeb byr o gynnwys yr orielau dan do:

Casgliadau bywyd corfforaethol gan gynnwys eitemau meddygol, cyfraith a threfn ac eglwysig.

Casgliadau domestig a gwisgoedd

Casgliadau amaethyddol, crefftau a thrafnidiaeth, gan gynnwys ystod o declynnau amaethyddol, offer fferm, cerbydau a pheiriannau yn dyddio o ddiwedd yr 18fed ganrif hyd at ganol yr 20fed ganrif. Mae'r rhan fwyaf o'r arteffactau naill ai wedi eu cynhyrchu yng Nghymru neu mae ganddynt gysylltiadau cryf â Chymru.

Casgliadau o fywyd diwylliannol yn ymwneud â cherddoriaeth, chwedloniaeth ac arferion, sefydliadau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol, diwylliant poblogaidd, chwaraeon a theganau a gemau plant.

Canlyniadau a dadansoddiad

Y rhai a gafodd eu cyfweld

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i roi arwydd o'r boblogaeth y gofynnwyd y cwestiynau iddynt (mae'r wybodaeth ystadegol yn cynnwys ymwelwyr a oedd wedi ac nad oedd wedi ymweld â'r orielau dan do): Beth yw eich grŵp oed? (Ystyrid pob unigolyn fel cyfranogwr, hyd yn oed aelodau mwy tawel o grŵp). Ble rydych yn byw? Pwy sydd wedi dod gyda chi heddiw? (Dosbarthwyd hyn yn nhermau pobl oedd yn gwpl, grŵp teuluol yn cynnwys o leiaf un oedolyn ac un plentyn, grŵp coleg, grŵp o ffrindiau (hen neu ifanc) neu grŵp o bensiynwyr ar daith wedi ei threfnu.

Ydych chi wedi bod yn yr Amgueddfa o'r blaen? (dosbarthwyd hyn yn nhermau ymwelwyr am y tro cyntaf, rhai oedd wedi ymweld unwaith o'r blaen, rhai oedd wedi ymweld 2-3 gwaith o'r blaen, wedi ymweld 4 gwaith neu fwy o'r blaen). Nodwyd eu rhyw hefyd, oedd yn arbennig o ddiddorol mewn achosion o bobl yn crwydro ar eu pennau eu hunain.

Canlyniadau:

1. Beth yw eich ystod oed?

O'r holl bobl a gymerodd ran ym mhroses y cyfweliad:

roedd 11.24 % o dan 16
roedd 20.22 % rhwng 16-24
roedd 2.36 % rhwng 25-34
roedd 11.24 % rhwng 35-44
roedd 11.24 % rhwng 45-54
roedd 33.71 % dros 55

2. Ble rydych yn byw?

O'r holl bobl a gafodd eu cyfweld:

deuai 32.70 % o ardal Caerdydd (taith diwrnod)
deuai 28.85 % o ardal De Cymru (taith diwrnod)
deuai 1.92 % o ardal Gogledd/Canolbarth Cymru (taith dydd neu wyliau)
deuai 15.38 % o Loegr (taith dydd neu wyliau)
deuai 2 % o'r Alban ac roeddent ar wyliau
deuai 19.23 % o dramor ac roeddent ar wyliau

3. Pwy sydd wedi dod gyda chi heddiw?

O'r holl bobl a gafodd eu cyfweld:

roedd 2 % o ymwelwyr yn ddynion ar eu pennau eu hunain
roedd 0 % yn ferched ar eu pennau eu hunain

roedd 24 % mewn cwpl (yn briod neu yn ddi-briod)
 roedd 34 % yn grwpiau teuluol
 roedd 6 % yn grwpiau coleg
 roedd 28 % yn grwpiau o ffrindiau (o bob oed)
 roedd 6 % yn grwpiau o bensiynwyr ar daith wedi ei threfnu

4. A ydych wedi bod i'r Amgueddfa o'r blaen?
 Roedd 29.10 % yn ymwelwyr am y tro cyntaf
 Roedd 23.64 % wedi ymweld unwaith o'r blaen
 Roedd 9.10 % wedi ymweld 2-3 gwaith o'r blaen
 Roedd 38.18 % wedi ymweld 4 gwaith neu fwy o'r blaen

Sylwadau cyffredinol eraill a gynigiwyd am yr hyn a ysgogodd pobl i ymweld â Sain Ffagan: Mary a Roy: "Rydym yn byw yn Abertawe ac wedi bod yma filiwn o weithiau; symudon ni o Sussex i Dde Cymru ym 1966 a'r pryd hynny doedd Cymru ddim yn hysbysebu ei thirlun hardd: gwnaethom lawer o grwydro ein hunain a chanfod yr holl leoedd o amgylch Caerdydd. Roedd pobl o'r tu allan yn meddwl mai'r cyfan oedd gan y Cymry oedd pwll glo yn eu hiard gefn. Yr hyn sydd wedi ein sbarduno ni i ddod yma dros y blynnyddoedd yw ei fod yn enghraifft dda o'r hyn oedd yn digwydd yng Nghymru'r hen oes ac mae'n ddiddorol iawn. Mae'n drueni peidio â chodi tâl bychan am ddod yma oherwydd mae'n costio cymaint i'w gadw i fynd".

"Rydym ni yn dod o Dalgarth ger Aberhonddu ond cawsom ein geni ger Llanbryn-mair lle'r oedd ein teidiau a neiniau yn ffermwyr. Daethom yma pan oeddem yn fach: roedd yna deimlad y 'dylem' ddod ac y 'dylem' ddod â'n plant".

'Deuthum i yma pan agorodd ond dydw i ddim wedi bod ers hynny. Rydym wedi dod ag ymwelydd heddiw a byddwn yn dod eto yn awr ein bod wedi cael ein hatgoffa amdano, yn arbennig pan fo am ddim!"

Gwragedd fferm o Awstralia: "Daethom i ymweld â'r Felin Wlân i weld a fedrem fenthyl troell i nyddu'r gwll a gawsom yng Nghastell Windsor. Dywedodd rhywun "rhowch gynnig ar Sain Ffagan". Ond rydym yn ymchwilio i hanes Cymru beth bynnag ac wedi dotio gyda'r amgueddfa hon. Ac roeddem wrth ein bod yn gweld y plant wedi gwisgo mewn gwisg arbennig yn Ysgol Maestir: os gallwch ddal sylw'r plant rydych yn gwneud rhywbeth gwyb. Mae'n ardderchog fod hyn am ddim oherwydd gall teulu ddod yma ac ymlacio a'i weld bob yn dipyn heb y pwysau o orfod talu ffi enfawr".

Teulu o Seland Newydd: Deuthum yma 40 o flynyddoedd yn ôl: roedd yn wahanol iawn y pryd hynny oherwydd mai dim ond amgueddfa ydoedd heb gymaint yn digwydd y tu allan".

Dynion ifanc o Sweden: "Clywsom am hwn oddi wrth wraig mewn gorsaf bysiau pan oeddem yn dal bws i Gastell Caerffili. Dywedodd hi "ewch yna os ydych am ddysgu am fywyd Cymru yn gyffredinol". Mae'n debyg i Skansen ond mae mwy yma ac mae wedi ei wasgaru dros ardal fwy. Ac yn Skansen mae mwy o anifeiliaid yn crwydro o gwmpas, mae'n rhywbeth gwledig ac nid yn rhywbeth sy'n tyfu".

Cwpl o Swydd Efrog: "Lle gwyb: trawstoriad gwirioneddol dda o'r holl ffyrdd yr oedd gwahanol bobl yn byw yn y gorffennol. Doedd dim byd yn sefyll allan yn well nag unrhyw beth arall a chawsom bleser yn gweld y plant yn Siop y Gwalia".

"Pan ddaethom ym 1948 gydag Ysgol yr Eglwys Newydd yr oedd yno Garafán Sipsiwn fel rhan o'r amgueddfa. Fe ddaethom i mewn wrth y Castell lle roeddem yn ciwio i dalu. Roeddem yn galw'r lle yma yn Gastell Sain Ffagan ond rydym yn gwybod ei fod yn Amgueddfa Werin am sut roedd pobl yn byw cyn 1940. Roedd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn bobl o'r ddinas oherwydd doedd dim ceir na bysiau'r pryd hynny. Byddai ymwelwyr yn dod mewn bws lleol neu ar feic."

5. Aethoch chi i'r orielau heddiw? Do neu Naddo

Mae'r canlyniadau o'r cwestiwn hwn o bwysigrwydd ystadegol cyfyngedig oherwydd y rhan fwyaf o ddyddiau daethpwyd at y rhai oedd yn cael eu cyfweld wrth iddynt adael yr orielau

dan do. Ar ddiwrnod cyntaf yr arolwg, holwyd ymwelwyr yn yr amgueddfa awyr agored ac ymatebodd 20 o'r rhai y gofynnwyd iddynt ar hap nad oeddynt wedi ymweld â'r orielau dan do. Nodwyd eu rhesymau yn ofalus a rhoddir crynodeb i ddilyn (mewn dim ond ychydig o achosion yr oedd ymateb cymhleth ymwelydd yn ffitio i fwy nag un o'r categorïau a restrwyd isod):

Dywedodd 35 % fod y tywydd heulog yn ffactor i'w hysgogi i dreulio eu hamser i gyd y tu allan.

Dywedodd 30 % fod gweld yr adeiladau (neu adeilad arbennig) wedi ysgogi eu hymweliad.

Dywedodd 10% fod mynd â'r ci am dro yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru wedi bod yn ffactor i ysgogi eu hymweliad.

Dywedodd 15% nad oeddynt yn gwybod am yr orielau dan do.

Dywedodd 10% eu bod wedi bod ynddynt o'r blaen ac wedi eu mwynhau.

Dywedodd 5% eu bod wedi bod ynddynt o'r blaen ac nad oeddynt wedi eu mwynhau.

Dywedodd 10% y byddent yn ymweld â'r orielau dan do cyn gadael yr amgueddfa.

Sylwadau eraill a wnaed:

"Dim eto heddiw oherwydd roeddem am gael coffi ond pan ddaethom gyda'r plant (pan oeddent yn ifanc) a'n hwyron a'n hwyresau roeddent bob amser eisiau gweld y cyfan".
 "Mae'r tywydd yn wych a daethom i fod y tu allan. Rydym wedi bod mewn rhai adeiladau e.e. y Capel a Rhyd-y-Car ond mae angen diwrnod hir i wneud y cyfan ac mae mor braf eistedd allan heddiw".

"Roeddem eisiau bod y tu allan yn crwydro: aethom i weld Efail y Gof a chael te a sgon".
 "Dim ond am awr yr ydym wedi bod yma o Goleg y Bedyddwyr Bryste ac roedd heddiw yn ymweliad nad oeddem wedi bwriadu ei wneud. Roedd y tywydd yn ein hysgogi i fynd yn syth y tu allan ac ni ddywedwyd wrthym am yr orielau dan do. Efallai yr awn i mewn yn awr eich bod wedi crybwyll y peth, ond fydden ni ddim wedi mynd fel arall".

Gwraig hŷn o deulu amaethyddol o Swydd Rhydychen: "Y tro diwethaf y daethom roedden ni wedi dotio cymaint at yr orielau dan do fel nad oedd gennym ddigon o amser i fynd y tu allan! Felly rydym wedi dod yn ôl i Gymru i wneud y darn tu allan yn iawn!"

"Rydym wedi dod i mewn oherwydd y glaw a dydyn ni ddim awydd yr orielau dan do heddiw. Doedden ni ddim yn gwybod fod hon yn amgueddfa a daethom mewn grŵp o ddeg gan ddod â'n pethau chwaraeon, pêl ac ati. Cawsom syndod o weld yr holl adeiladau hyn...I ddweud y gwir mae gennym ni dipyn o 'ben mawr' ar ôl neithiwr (Pan eglurais natur y safle fe wnaethant benderfynu mynd allan i gael edrych ar yr adeiladau).

"Rydym wedi dod am bicnic ac yna byddwn yn crwydro o amgylch yr amgueddfa i fynd y tu mewn i'r adeiladau. Roeddwn yn arfer dod rhyw ddwywaith y flwyddyn gyda fy nhad-cu. Efallai yr awn y tu mewn ar y diwedd oherwydd nad ydym wedi eu gweld nhw eto".

"Mae'n dywydd braf ac rwyf wedi dod am ymweliad cyffredinol. Mae gennyf ddiwrnod i fwrdd ac rwy'n gwastraffu amser. Y tro diwethaf y deuthum roeddwn tua 7 oed pan oedd hen ddyn blin, tad-cu i ffrind ysgol, yn athro arnom, a gallaf gofio'r siop.

"Diwrnod braf ac roeddwn am weld y Pentref Celtaidd oherwydd rwy'n athro. Os bydd yn glawio rydym yn mynd â'r plant ysgol o dan do wedyn".

Saesnes: "Rydym wedi ymweld â'r tu allan yn gyntaf oherwydd bod gennyf fwy o ddiddordeb yn hynny, yn hanes yr adeiladau a'r lle".

Merch ifanc a'i mam: "Doedden ni ddim eisiau gwneud hynny. Rydw i wedi bod o'r blaen gyda mam a chymerodd ormod o amser. Rydw i eisiau mynd allan oherwydd mae'n well gen i'r adeiladau yn llawer mwy".

"Ymweliad byr ydy hwn. Mae'n dywydd braf ac rydym yn hoffi cerdded o gwmpas gyda'r ci. Does yna ddim arwyddion clir i ddweud beth sy'n mynd ymlaen ynddyn nhw beth bynnag." Dyn o Awstralia: "Y tro diwethaf y deuthum yma roeddwn yn blentyn ac roeddem yn gwneud ein hwyl ein hunain yma: byddem yn nofio yn yr afon i lawr fan yna, byddem yn neidio dros y wal a'r ffens i'r coed a'r castell, a byddem yn cerdded o Ely ar draws y groesfan. Yn y dyddiau cynnar hynny dim ond ffordd drol oedd yna yn arwain at fferm gydag anifeiliaid a'r

Efail, siop melysion a chrefftwyd. Roeddem yn eu gwyllo yn toi ac yn cadw ein pellter er bod rhai wedi ein hannog i ddod i mewn. Rwy'n eu cofio yn plygu'r gwrychoedd. Mae'n wych yn awr ac rwy'n falch eu bod wedi ailadeiladu'r pentref yma (awgrymais i nad oedd yn bentref mewn gwirionedd). Rwy'n gwybod nad yw'n bentref oherwydd bod yr adeiladau yn dod o wahanol rannau o Gymru ond y mae'n rhoi syniad i chi o sut roedd pobl yn byw ac yn ymdrechu yn y gorffennol".

6. A wnaethoch chi gerdded drwy'r holl orielau neu drwy un yn arbennig?

Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ddarganfod a oedd ymwelwyr wedi crwydro drwy'r holl orielau, yn dilyn y llwybr pedol cyfleus drwodd neu a oedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn oriel arbennig neu yn wir a oeddent wedi methu â deall/dilyn y llwybr pedol ac wedi mynd ar goll.

Roedd 82.14% wedi cerdded drwy neu wedi ymweld â'r holl orielau dan do.

Roedd 14.29% wedi ymweld â'r oriel amaethyddol a'r oriel wisgoed yn unig.

Roedd 3.6% wedi ymweld â'r rhan amaethyddol yn unig oherwydd nad oeddent yn deall y llwybr drwodd.

7. Pam wnaethoch chi ddewis ymweld â'r orielau dan do?

Roedd 20.70% wedi bod y tu allan yn barod ac wedi penderfynu dod i mewn/eisiau gwneud y cyfan.

Roedd 10.34% yn dweud mai dyma'r peth cyntaf y deuwch ar ei draws yma/roeddynt wedi dod ar ei draws yn ddiymwybod.

Roedd 13.79% wedi ymweld â nhw o'r blaen ac yn dychwelyd atynt.

Roedd 17.24% wedi dod ar ei draws o'r bwyty.

Roedd gan 3.45% ddiddordeb personol mewn amaethyddiaeth

Roedd gan 3.45% ddiddordeb personol oherwydd bod perthynas wedi rhoi arteffact (gramoffon yn yr achos hwn)

Roedd 13.80% wedi eu harwain/eu hannog i'r lle gan eraill yn fy ngrŵp/teulu

Roedd 3.45% wedi eu hannog i mewn gan staff yr amgueddfa

Roedd gan 6.90% ddiddordeb ynddynt ac mewn hanes cymdeithasol

Roedd 6.90% yno oherwydd y glaw

8. Gofynnwyd i ymwelwyr am eu hargraff gyffredinol am yr orielau mewn ymateb i'r ystod ganlynol o atebion sefydlog.

Yn gyffredinol nid oedd y rhai a gafodd eu hymwêl wedi ateb gyda brwdfrydedd i'r cwestiwn hwn ac nid oedd eu hymatebion yn ymddangos yn arbennig o bendant ar y cyfan.

A. Roedd yr orielau yn well na'r disgwyl

Dywedodd 39.2% eu bod yn credu bod yr orielau yn well nag yr oeddent wedi ei ddisgwyl

B. Roedd yr orielau ychydig yn well na'r disgwyl

Dywedodd 17.9% eu bod yn meddwl bod yr orielau ychydig yn well nag yr oeddent wedi ei ddisgwyl

C. Roedd yr orielau fel yr oeddech wedi eu disgwyl

Dywedodd 39.29% eu bod yn meddwl bod yr orielau fel yr oeddent wedi disgwyl

D. Roedd yr orielau yn waeth nag yr oeddent wedi disgwyl

Dywedodd 7.14% eu bod yn meddwl bod yr orielau yn waeth nag yr oeddent wedi disgwyl

Roedd yr orielau yn llawer gwaeth na'r disgwyl

Dim ymateb

9. Roedd y cwestiwn nesaf yn gofyn i'r rhai a oedd yn cael eu cyfweld egluro eu hymateb ac roedd yn bosibl dosbarthu'r ymatebion cadarnhaol yn eu tro fel a ganlyn:

Dywedodd 3.6% fod yr orielau yn dda ac yn bleserus

Dywedodd 10.71% eu bod yn hoffi amrywiaeth y casgliadau

Dywedodd 10.71% eu bod yn hoffi pethau hanesyddol/ hanes cymdeithasol/ bywyd y gorffennol

Dywedodd 7.1% fod yr orielau fel yr oeddent yn eu cofio'n blant

Roedd esboniadau eraill a roddwyd fel a ganlyn:

"Roeddwn yn hoffi'r gerddoriaeth yn y cefndir ac roedd yn gosod yr awyrgylch".

"Roedd y gwisgoedd wedi eu cyflwyno'n dda."

Roedd yno ystod eang; roeddent yn dangos beth fyddent yn ei wisgo a sut roeddent yn gwneud pethau a hefyd yn dangos gwahanol bethau yr oeddent yn ei wneud er mwyn adloniant."

"Doedden ni ddim yn disgwyl unrhyw beth o gwbl ac roedd yn syndod".

"Roedd llawer o bethau ac esboniadau da".

"Dydw i ddim yn dod o gefndir amaethyddol ond gallwn wneud synnwyr o'r offer oherwydd bod llawer o ffotograffau yno yn ogystal".

"Mae llawer o wybodaeth am ddiwylliant. Deuthum yma 40 o flynyddoedd yn ôl a dim ond amgueddfa oedd hi'r pryd hynny gyda dim cymaint y tu allan".

Merch 10 oed: "Rwy'n hoff o storïau hen ffasiwn, rydym yn hoffi hen iaith a'r gorffennol".

"Ysbrydoledig".

Rhoddodd y ddau a gafodd eu cyfweld oedd yn meddwl bod yr orielau yn waeth na'r disgwyl y rhesymau canlynol: a) "Roedd yn ymddangos yn waeth na'r tro diwethaf y deuthum; roedd yn edrych yn wacach. Mae'r cistiau'n dywyll heb eu goleuo; fedrwch chi ddim darllen y cardiau ac roeddem eisiau cael rhywfaint o wybodaeth". b) Oherwydd bod yr hysbysiadau bach sy'n disgrifio yn rhy fach".

10. Beth oeddech chi yn ei hoffi orau am yr orielau?

Roedd 21.43% yn hoffi cynllun yr orielau – ei fod yn llwybr trwodd rhwydd

Roedd 3.6% yn hoffi'r defnydd o'r ffotograffiaeth yn dangos defnydd

Gallai 14.29% uniaethu gyda'r orielau amaethyddol oherwydd eu bod yn dod o gefndir amaethyddol

Roedd 21.43% yn hoffi'r orielau amaethyddol ond nid oeddynt o gefndir amaethyddol

Roedd 10.71% yn hoffi'r tynwyr dannedd a'r arddangosfa feddygol

Roedd 3.58% yn hoffi'r hen beiriannau golchi dillad oherwydd roeddent yn dangos sut roedd pobl gyffredin yn byw

Roedd 14.29% yn hoffi'r teganau (un casglwr mewn oed a phlant)

Roedd 35.71% yn hoffi'r oriel ddillad (gan gynnwys yr hetiau). Roeddent i gyd yn ferched.

Roedd 10.71% yn hoffi'r offerynnau cerdd

Roedd 17.86% yn hoffi'r arfau. Roeddent i gyd yn ddynion

Cyfeiriodd 7.14% at y casgliadau o chwaraeon.

Gwybodaeth ychwanegol a dadansoddiad yn ymwneud â'r ystadegau:

Casgliad amaethyddol:

Dywedodd un dyn er nad oedd o gefndir amaethyddol ei fod yn hoffi'r orielau amaethyddol oherwydd y gallai gysylltu â'r peiriannau mawr fel tractorau. Dywedodd un dyn 26 oed oedd yn siarad Cymraeg o gefn gwlad Gogledd Cymru (ond nad oedd yn ffermwr) ei fod yn hoffi gweld y peiriannau amaethyddol a gweld yr enwau Cymraeg ar y labeli. Dywedodd un teulu gan gynnwys plant bach eu bod wedi hoffi gwasgu'r offer yn yr oriel amaethyddol. Roedd un dyn yn hoffi'r offer amaethyddol oherwydd gallai gofio ei fod wedi defnyddio rhai ohonynt (er eu bod yn hen y pryd hynny ond yn dal i gael eu defnyddio): roedd yr orielau yn mynd â phobl yn ôl i'r gorffennol er y byddai llawer o'r offer o gyfnod ei rieni a'i daid a'i nain. Dim ond atgof annelwig oedd ganddo am aredig gyda cheffylau er enghraifft.

Roedd llawer mwy o dystiolaeth y gallai pobl uniaethu gyda'r arteffactau hynny a oedd yn ymwneud â'u profiad personol:

Roedd plant yn tueddu i hoffi'r teganau (merched yn hoffi'r doliau a'r ceffyl siglo) a'r dillad. Roedd bechgyn yn hoffi'r arfau. Roedd un wraig oedd yn hoffi organau yn eu hoffi oherwydd ei bod hi'n chwarae'r organ ei hun ac roedd dyn arall yn hoffi'r piano sgwâr oherwydd roedd ganddo ef un. Roedd dyluniwr gemwaith wedi ymddeol yn hoffi'r hen emwaith ac yn ystyried sut i'w lanhau. Yr unig bobl i ddweud eu bod yn hoffi pulpud Wesley a'r gwrthrychau Eglwysig oedd pobl hŷn a oedd yn Gristnogion oedd yn mynychu'r eglwys eu hunain. Roeddent yn dweud bod y gerddoriaeth ar y diwedd yn effeithiol dros ben. Roedd dyn yn y grŵp oed 25-34 yn hoffi'r arfau oherwydd roedd yn dod o gefndir oedd yn gysylltiedig â'r fyddin. Roedd merch ifanc oedd yn hoff o'r oriel wisgoedd yn hoffi'r wisg Dydd Gŵyl Dewi yn arbennig oherwydd roedd wedi gwneud gwisg debyg ar gyfer y dathliad yn ei hysgol.

Roedd yr orielau dan do yn gwneud i rai werthfawrogi technoleg fodern a bywyd modern: dywedodd dau fod rhai arteffactau fel yr offer meddygol ac amaethyddol yn eu hannog i gymharu'r gorffennol â'r presennol ac i werthfawrogi cymaint yn galetach oedd bywyd yn yr oes o'r blaen. Roedd un Sais (oedd yn briod â Chymraes) yn hoffi clywed y gerddoriaeth yn yr iaith Gymraeg. Roedd gan ferch ifanc ddiddordeb arbennig yn y cawell i atal dynes rhag siarad oherwydd roedd yn gymaint o sioc iddi. Roedd ei brawd iau yn yr un modd yn hoffi'r arfau a'r offer arteithio.

Arall:

Dim ond un (merch rhwng 35-44) oedd yn hoffi'r gwisgoedd a ddywedodd nad oedd yn hoffi'r modd yr oeddent yn cael eu harddangos. Roedd pobl yn tueddu i hoffi natur eclectic yr orielau. Roedd un dyn yn hoffi'r 'memorabilia' gan nodi'r crys pêl-droed a'r medalau Eisteddfodol. Un sylw a wnaed gan ddwy ddynes o Awstralia dros 55 oed oedd eu bod wedi mwynhau'r ffilmau yn Oakdale 'bwyteuach datws nid bara' ac roeddynt yn hynod o falch eu bod wedi cael cylchgrawn gwych am y profiad o fod yn efaciwis oherwydd y gallent gymharu hyn i gyd gyda'r profiad o ddogni yn Awstralia. Roeddent hefyd wedi bod wrth eu bodd yn clywed am ferched y tir oedd wedi gweithio yng ngerddi'r castell oedd yn dangos tuedd rywiol bendant yn ysgogi diddordeb.

11. Beth oeddech chi yn ei hoffi leiaf (am yr orielau dan do)?

Nid oedd gan 35.71% o'r rhai a gyfwelwyd ac a ymwelodd â'r orielau dan do unrhyw sylw i'w wneud

Cwynodd 25% fod y labeli yn anodd eu darllen oherwydd bod y print yn rhy fach, bod y cistiau'n cael eu goleuo yn annigonol a bod sbectol pobl yn adlewyrchu yn erbyn y gwydr.

Cwynodd 14.28% am yr awyrgylch yn yr orielau h.y. roeddynt yn dywyll ac yn hen ffasiwn

Cwynodd 14.29% am brinder gwybodaeth i roi pethau yn eu cyd-destun a oedd yn ei gwneud hi'n anodd deall rhai o'r gwrthrychau oedd yn cael eu harddangos

Cwynodd 7.1% am y diffyg cyfeirio. Roedd rhai eisiau mwy o arwyddion wrth y fynedfa ffrynt yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r orielau dan do ac roedd eraill yn dymuno cael mwy o arwyddion o fewn yr orielau yn cyfarwyddo pobl i symud o un oriel i'r nesaf

Cwynodd 14.29% am beidio â hoffi grwpiau arbennig o wrthrychau: dywedodd rhai bod y teganau yn codi ofn ar rai bach; dywedodd rhai eraill fod yr offer amaethyddol (yn benodol y rhesi o erydr) yn undonog; ac nid oedd dau fachgen ifanc yn hoffi'r oriel wisgoedd o gwbl.

Mynegodd 10.71% awydd am newid gyda 7.1% yn awgrymu mwy o waith rhyngweithiol

Sylwadau eraill:

Roedd yn ymddangos fod rhywfaint o gystadleuaeth rhwng teuluoedd oherwydd roedd rhai achosion o fechgyn ifanc yn cwyno yn benodol am yr oriel wisgoedd 'ddiflas' oherwydd eu bod wedi gorfod aros yno yn hwy nag y byddent wedi dewis gan aelodau benywaidd o'r teulu oedd â diddordeb yn y lle. Rhoddodd un wraig rhwng 35-44 oed yr ymateb soffistigedig canlynol yn Gymraeg, 'Y cefndiroedd hen ffasiwn: y dioramas cefndirol. Yr arwyddion / panelau gwybodaeth. Y llwybr troellog'

12. Beth yw eich barn am y modd y mae pethau wedi eu harddangos?
Roedd gan y cwestiwn hwn yr ystod ganlynol o ymatebion sefydlog

A. Gormod neu ddim digon o ddeunyddiau darllen?

Dywedodd 50% fod digon i'w ddarllen neu nad oeddent yn hoffi darllen beth bynnag
Dywedodd 28.58% y byddent yn hoffi mwy o wybodaeth

B. Gormod o wrthrychau?

Ni wnaeth 14.29% unrhyw ymateb o gwbl

Dywedodd 78.57% nad oedd gormod o wrthrychau, a rhoddodd 21.43% o'r rhain sylwadau ychwanegol am eu bodlondeb gyda'r 'drefniadaeth dda', 'cynllun ardderchog', y lle 'nad oedd yn cynnwys gormod o annibendod', 'lle i symud o gwmpas' o fewn yr orielau dan do.

Dywedodd 3.5% fod rhai pethau ar goll

Dywedodd 3.5% fod gormod i'w weld yn yr orielau.

C. Dim digon o adnoddau rhyngweithiol?

Nid atebodd 14.29% y cwestiwn hwn

Teimlai 64.29% y gellid bod â mwy o adnoddau rhyngweithiol

Nid oedd 21.43% yn dymuno gweld mwy o adnoddau rhyngweithiol

D. Dim lle i eistedd?

Ni wnaeth 28.57% o ymwelwyr unrhyw ymateb

Roedd 42.86% o ymwelwyr o blaid ychwanegu mwy o seddi

Nid oedd 28.7% o ymwelwyr yn dymuno mwy o seddi

C. Arall

Ymatebodd cyn lleied o bobl i'r cwestiwn hwn fel nad yw'n bosibl dosbarthu atebion yn nhermau canrannau. Ceir rhestr o'r sylwadau a wnaed isod:

Benyw 35-44 oed “Beth am glywed pethau/pobl”?

Dyn dros 55 oed “Mae’n braf /well gweld yr arteffactau yn eu lleoliadau h.y. y tai. Byddwn yn cael gwell teimlad yn eu cylch [yn yr orielau dan do] pe bai cefndir priodol e.e. ystafell wedi ei pheintio a’r wal wedi ei pheintio er mwyn yr awyrgylch; neu gallech roi cadeiriau neu stand gerddoriaeth neu rywbeth rhyngddynt”.

Cwpuwl ifanc wedi dyweddio: “Rydym yn hoffi’r ffotograffau gyda phethau e.e. y tractor. Hoffem allu cymryd ffotograffau yn yr oriel wisgoedd neu gael cerdyn post i fynd adref gyda ni.

Sylwadau eraill:

Ar y cyfan ni wnaeth pobl ymateb i’r cwestiwn hwn gyda brwdfrydedd. Yn wir roedd y dasg o annog pobl i ymateb weithiau yn ddiflas oherwydd nad oeddent yn dymuno ymrwymo eu hunain. Roedd yn ymddangos fod ymwelwyr weithiau yn cytuno er mwyn cytuno a heb geisio dychmygu’r orielau mewn unrhyw ffordd arall. Ond i ddilyn ceir rhai enghreifftiau pan feddyliodd ymwelwyr yn fwy gofalus am eu hatebion i gwestiwn 11A:

teimlai un wraig fod yr esboniad am y ffrwyn cecren yn annigonol;

un arall fod digon o wybodaeth am ragluniaeth ond dim digon o ddefnydd a dim digon o esboniad am yr offer amaethyddol a meddygol;

teimlai un arall yn ddryslyd ynghylch o ble roedd y gwrthrychau yn dod ac awgrymai fap yn nodi lleoliadau;

dim digon i’w ddarllen ar lefel plant

nid oedd un wraig yn dymuno cael mwy o wybodaeth oherwydd roedd yn hoffi dychmygu pwrpas y gwrthrychau (awgrymais y gallai pobl wneud tybiaethau anghywir a derbyniodd hynny)

teimlai un bod digon i’w ddarllen ac y dylai’r Wardeniaid egluro mwy.

Mewn perthynas â chwestiwn 11C o blith y rhai a deimlai y dylid fod â mwy o adnoddau rhyngweithiol rhoddodd 38% y sylw ychwanegol y byddai hyn yn ddarpariaeth ar gyfer plant. Gwelai 22.22% y gallai hyn fod yn rhywbeth i oedolion gydag un teulu yn dweud eu bod i gyd eisiau clywed mwy o synau ac un wraig rhwng 35-44 yn awgrymu y byddai bod â droriau a chypyrddau y gellid eu hagor i weld y llu o wrthrychau y tu mewn iddynt fel yn Amgueddfa Gorllewin Awstralia, Amgueddfa Pitt Rivers ac arddangosfa ddiweddar yn y Tate Modern. Roedd rhai yn teimlo na ddylid cael mwy o adnoddau rhyngweithiol. Roedd y rhain yn tueddu i fod o’r genhedlaeth hŷn a chynigiwyd y sylwadau ychwanegol canlynol:

“Hoffwn fynd o gwmpas yn ôl ein cyflymder ein hunain a gallai hynny ddifetha’r ddelwedd ac amharu ar wir ystyr yr arddangosfa h.y. gwrthrychau go iawn. Dylai adnoddau rhyngweithiol fod yn fenter ar wahân”.

Gwraig o Awstralia: “Mae hon fel oriel wledig nid oriel ddinesig h.y. gallwch fynd yn agos at y gwrthrychau, sy’n braf iawn”.

“Peidiwch â’u defnyddio oherwydd bydd yn amharu ar y lle sydd gennych ar gyfer gwrthrychau go iawn, y ‘real McCoy’: dydyn ni ddim am weld adnoddau rhyngweithiol yn dod yn amlwg yma”.

“Bydd y lle yn mynd yn llawn gyda phlant a fyddwn ni ddim yn teimlo’n gysurus i grwydro yn ôl ein cyflymder ein hunain.”

13. Oedd na unrhyw wrthrychau neu storïau amlwg yn yr oriel?

Ni roddodd 35.71% unrhyw ymateb

Dyweddodd 17.86% eu bod yn mwynhau crwydro’n gyffredinol ond nad oeddent yn chwilio am unrhyw beth penodol

Cyfeiriodd 10.71% at arteffactau amaethyddol

Cyfeiriodd 7.14% at yr arteffactau meddygol (deintyddiaeth neu feddyg) (dywedodd un wraig fod hyn yn dda oherwydd nad ydych yn clywed llawer am hyn ar raglenni dogfen ar y teledu)

Dyma sylwadau eraill a wnaed:

Cwpuwl dros 55 oed: “Rydym yn hoffi’r tractorau a’r malwyr oherwydd roedd gennyf un a etifeddais oddi wrth fy nhaid a’r ceffyl siglo”.

Dynes 35-44 oed: “Yr hen ffordd o fyw yn y ffermdy a pha mor gwbl wahanol oedd bywyd, pa mor lwcus yr ydym ni a pha mor galed yr oedd bywyd”.

Gwraig 35-44 oed: “Amaethyddol, gwisgoedd, offer doctor (ych!), ffrwyn cecren, caseg fedi, cardiau ffolant”

Dynes o gefndir amaethyddol o Awstralia dros 55: “Y pwensiwr i wneud pwythau, gweithiais hynny allan drosof fy hun oherwydd roeddwn yn arfer bod yn nyrs ac yn ffermio. Rydw i'n hoffi gweithio pethau allan drosof fi fy hun”.

Americanwyr ifainc 16-24 oed: “Mae'r rhan sydd y tu allan yn dweud mwy o stori a gallwch weld ble roedd pobl yn byw a pha mor dal ac isel oedd y drysau. Mae'r dillad yn dweud stori gwahanol ffasiynau”.

Grŵp Cristnogol o Gaerdydd dros 55: “Wesley a'r eglwys. Yr offer a ddefnyddir i gael cŵn oedd yn ymladd allan o'r eglwys”.

Teulu o Seland Newydd: “Roedd yn ein hatgoffa o Seland Newydd yn ystod yr 1950au a'r 1960au. Roeddem wedi meddwl y byddai'n fwy modern yma ond na. A'r mab 16-24 oed: “croen y babanod – doedd gen i ddim syniad beth oedd hwnnw”.

Cwpl 25-34 oed: “Cawsom ddysgu hanes, sydd mae'n debyg yn denu pobl hŷn. Cawsom ddysgu am hanes arfau flynyddoedd yn ôl. Rwy'n dod o gefndir sy'n gysylltiedig â'r fyddin”.

Cwpl dros 55 oed: “Roedd pethau'n dilyn ymlaen mewn themâu a blynyddoedd a chyfnodau. Cwpl amaethyddol o Uganda (datblygiad) 45-54 oed: “Yr arddangosfa o fawn a sut maent yn ei wneud yma. Nid oedd yr arddangosfa wedi ei hegluro yn dda iawn ac eglurais ef i'm gwraig oherwydd rwy'n gwybod am hyn”.

Dyn 45-55 oed: “Y modd y mae dillad wedi esblygu”.

14. Pa fathau o storiâu neu hanesion yr hoffech ddysgu amdanynt yn yr orielau?

Roedd yn rhaid i'r rhan fwyaf o bobl feddwl yn galed am hyn ond y ddau ymateb mwyaf poblogaidd a ddaeth wedyn oedd chwaraeon Cymru a diwydiant Cymru: rhan o'r esboniad am hyn oedd mai'r rhain yw'r cysylltiadau mwyaf amlwg y mae pobl yn eu gwneud â Chymru.

Ni roddodd 21.43% o ymwelwyr unrhyw ymateb

Cyfeiriodd 17.86% o ymwelwyr at chwaraeon gan gynnwys rygbi, pêl-droed a nofio (gemau Olympaidd) (gwnaed yr awgrym hwn gan ddynion neu roedd llais gwrywaidd amlwg o fewn y grŵp)

Cyfeiriodd 28.57% o ymwelwyr o ferched a dynion ac o grwpiau oed cymysg at ddiwydiant Cymru gan gynnwys cloddio am lo a llechi a chynhyrchu dur (ychwanegodd 37.5% o'r ymatebwyr fod yn rhaid cyfaddef fod “digon o leoedd treftadaeth ddiwylliannol eraill o gwmpas”) (dim ond un wraig 35-44 oed a nododd ei bod wedi gweld un cyfeiriad o fewn yr orielau cyfredol at farwolaethau mewn Glofa)

Gwnaed y sylwadau ac awgrymiadau canlynol eraill:

Cwpl dros 55: “Oherwydd ein bod o Fryste rydym bob amser yn meddwl am y cymoedd a thywyllwch y pentrefi glofaol. Aethom i Ryd-y-Car ond does dim llawer am gloddio am lo yno ac onid dyna'r prif reswm pam fod De Cymru'n bodoli?”

Teulu 35-44 oed: “mae mwynloddio yn rhan fawr o fywyd Cymru”

Teulu dros 55 oed: “mwynloddio: os yw'r lle hwn yn hawlio bod yn hanes cyflawn o Gymru. A beth am y corau meibion sydd yng Nghymru e.e. Treforys?

Gwraig 35-44 oed: Ni roddir ystyriaeth i'r ochr cloddio am lo: “mae'r rhan fwyaf o bobl yn gysylltiedig â hyn e.e. fy nhad-cu”

Teulu dros 55 oed: “Hoffais Eglwys Sant Teilo a hoffwn weld fideo yn dangos y broses”

Teulu 25-34 oed: “Dymuno gweld mwy am gymeriadau Cymreig enwog”

Teulu ifanc: “Dymuno gweld mwy am fywyd Cymreig efallai”.

Dyn ifanc 16-24 oed: “Dymuno gweld mwy am fecaneg yn hytrach na chymaint am ffermio”

Cwpl dros 55 oed: “Dymuno gweld mwy am yr Ail Ryfel Byd, roeddem yn blant bryd hynny a gallaf gofio'r masgiau nwy. Hanes y Blitz yn Abertawe a Chaerdydd yn dangos sut y cawsant eu bomio”.

Gwraig 35-44 oed: “Ilên gwerin e.e. y Fari Lwyd a straeon/atgofion hanesyddol ac am wisgoedd”.

Dyn 16-24 oed: “Sut roeddent yn byw eu bywydau mewn gwirionedd, mae ffotograffau yn dangos llawer ond doedd dim digon am eu bywyd go iawn”.

Cwpl o Swydd Efrog dros 55: “Cyfnod Owain Glyndŵr ac adeg Edward I ac II oherwydd dwi'n Albanwraig ac mae gennyf ddiddordeb mewn hanes. Roeddem yn ymladd y Saeson tua'r un cyfnod. Rydw i am wybod am yr ymladdwyr Cymreig dros ryddid a Plaid Genedlaethol

Cymru. Mae Glyndŵr bob amser wedi bod yn rhywbeth oedd yn cynrychioli Cymru i mi. Gallech hefyd fod â mwy am hanes milwrol fel y cyfraniad a wnaed gan y catrodau Cymreig ac Albanaidd i'r fyddin Brydeinig! Pam nad oes gennych chi Rock's Drifft, catrawd y South Wales Borderers a aeth i Affrica i ymladd yn rhyfeloedd y Zulu a chael 11 o fedalau Fictoria? Byddai hyn o ddiddordeb i blant (ond roedd y dyn hwn yn cydnabod bod amgueddfeydd milwrol arbenigol yn bod ar y llaw arall ac y gallai canolbwyntio ar yr agwedd hon dynnu sylw oddi wrth yr olwg gyffredinol a roddid ar fywyd Cymru).

Cwpl o Uganda yn gweithio ar ddatblygu ffermydd 45-54 oed: "Does yna ddim stori gyffredinol yma. Hoffem weld llinell gronolegol yn dangos hanes defnydd tir a chynhyrchu bwyd dros amser. Roedd yr adran ar ddillad yn gwneud hyn drwy ddarparu dyddiadau a gwahanol gyfnodau ond gallech fod wedi rhoi'r dillad o fewn cyd-destun gyda chefnidroedd dioramig. Mae'r modelau sydd gennych yn wyn ac yn edrych fel 'zombies'".

Dyn 35-44 oed: "dangoswch sut y codwyd yr adeiladau mewn gwirionedd: clywais bobl yn mynd at y Wardeniaid yn y tai a gofyn "Faint yw eu hoed" Pryd gawsant eu prynu", ond ni chafwyd ateb".

Dyn dros 55 oed: "mwy o deganau plant fel enghraifft o bethau y mae pobl yn eu casglu eu hunain. Ceisiwch gyfleu awyrgylch yr ystafelloedd yn y tai: dyma pam fod gan y tai fwy o apêl".

Gwraig 25-34 oed: "Cerddoriaeth fodern o'r 50 mlynedd diwethaf oherwydd rwy'n hoff o gerddoriaeth [cerddoriaeth Gymraeg?] Mae'r sin cerddoriaeth Gymraeg o ddiddordeb er nad ydw i'n siarad Cymraeg".

Teulu o Seland Newydd: "Roeddwn yn dymuno gweld gwahanol rannau o Gymru o Eryri i'r Bannau ac ati".

Cwpl dros 55 oed o Gaerdydd: "I ble yr aeth yr ystafell Gymreig o'r Amgueddfa Genedlaethol, gyda'r llofft a'r blancedi a'r gegin a'r dreser: roeddem yn hoffi honno fel plant... [Pam?] oherwydd roedd yn gysurion. Dyma un o'm hatgofion cryfaf o fod yn blentyn yng Nghaerdydd". Roddant hefyd am gael gwybod am y rhyfel [dim yn siŵr pa un], gan ddweud "roedd hon yn adeg bwysig ym mywyd y genedl ac mae angen i blant wybod amdani. Cafodd pobl eu dwyn at ei gilydd mewn modd nad yw'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd mawr".

15. Sut yr hoffech i'r rhain gael eu cyflwyno yn yr orielau?

Ni roddodd 35.71% o ymwelwyr unrhyw ymateb

Dywedodd 32.14% fod gwrthrychau/artefactau yn hynod bwysig

Crybwyllodd 35.71% gynnwys fideo a ffilm (nododd llawer o'r rhain na fyddent yn dymuno eistedd drwy ffilm hir)

Crybwyllodd 10.71% ffotograffau

Crybwyllodd 14.29% rhyw fath o fodel ar gyfer darparu cyd-destun

Gwnaed y sylwadau a'r awgrymiadau canlynol:

Cwpl dros 55 oed: "artefactau, lluniau a recordiau sain o leisiau pobl yn trafod eu profiadau yn ystod y rhyfel neu byddant wedi marw".

Dyn 16-24 oed (Seland Newydd): "Cael adran o ffotograffau sydd ag ysgrifen yn dweud beth maent yn ei wneud, nid yn unig pwy ydyn nhw, byddai hyn yn gwneud pethau yn llai diflas".

Dyn dros 55 oed: Dywedodd y dylai pethau gael eu harddangos mewn cyd-destun i roi awyrgylch i'r ystafelloedd.

Gwraig 35-44 oed: Roedd yn dymuno cael cyfuniad o gyfryngau i ddangos i bobl ifanc sut yr oedd dynion yn mynd i lawr y lofa yn ifanc, dangos yr anifeiliaid a'r adar a ddefnyddid a sut yr oedd gwragedd a phlant yn cyfranogi.

Cwpl dros 55 oed: Dymuno cael model o löwr ac ystafell fechan i ddangos sut beth oedd bod yn y pwll ac mewn twnnel tair troedfedd yn cropian: dylid bod â recordiad sain uwchben.

Dyn 35-44 oed: roedd yn dymuno cael ffilm neu rywbeth ar y rhyngwryd yn dangos y broses o ddod â'r adeilad arfaethedig o Aberdâr, ei dref ef.

Gwraig dros 55 oed: "artefactau a ffilm fer oherwydd yn fuan iawn ni fydd unrhyw rai o'r plant hyn yn gwybod sut yr oedd glo yn cael ei gloddio. Roedd yn dda cael yr artefactau amaethyddol y gallwch afael ynddyn nhw. Ond doedd dim byd i ddangos sut yr oedd yn cael

ei ddefnyddio: dyw'r genhedlaeth iau erioed wedi ei weld heb sôn am wybod am enwau'r eitemau.

Cwpl o Sir Efrog dros 55: dymunent gael cymysgedd o wrthrychau y gallent uniaethu â nhw a 'rhaf fideos clir i roi amlinelliad cyffredinol oherwydd dyw pobl ddim yn gwybod bellach.

Byddai rhaglen ddogfen fer ar hanes Prydain yn dda. Roedd yr Albanwyr yn filain iawn yn erbyn y Saeson ac mae'n gwneud cymhariaeth ddiddorol".

Teulu ifanc: roeddent yn dymuno cael recordiad o gerddoriaeth ac adnoddau rhyngweithiol yn ogystal â gwrthrychau.

Dyn 25-34 oed: nododd "trwy waith fideo a gemau cyfrifiadurol"

Teulu 45-54 oed (Seland Newydd): awgrymwyd corneli penodol wedi eu tywyllu lle gellid gwyllo ffilmau fideo wrth eistedd. Gellid cyflwyno hanes Cymru drwy'r oesoedd. Nodwyd fod y fideo yn y fynedfa yn rhy amlwg ac nad oedd yn eich gwahodd i'w gwyllo.

Gwraig 35-44 oed: "Trwy ganfod y deunydd fy hunan – drwy agor drôr, gwasgu botwm, darllen, gwyllo rhywun mewn rôl yn cyflwyno stori, cymeriad neu hanes".

16. Pa fath o weithgareddau yr hoffech chi eu gwneud yn yr orielau?

Ni roddodd 17.86% o ymwelwyr unrhyw ymateb

Dymunai 57.14% o ymwelwyr gael gweithgareddau i'w gwneud yn yr orielau.

Teimlai 81% o'r rhain y byddai gweithgareddau i blant.

Teimlai 18.75% o'r rhain y gallai gweithgareddau fod i oedolion.

Nid oedd 25% o ymwelwyr yn meddwl bod gweithgareddau yn angenrheidiol nac yn ddymunol

Roedd rhesymeg yr ymwelwyr hynny nad oedd yn dymuno gweithgareddau fel a ganlyn:

Dywedodd 14.29% fod yn well ganddynt grwydro o gwmpas

Dywedodd 14.29% "mae gennych faes chwarae antur y tu allan"

Dywedodd 14.29% "na, oherwydd mae angen addysgu plant. Pam fod rhaid eu diddanu drwy'r amser?"

Dywedodd 42.86% y gallai gweithgareddau i'r plant fod yn rhwystro "yn tynnu sylw pobl hŷn ac yn eu hatal rhag gwneud beth bynnag yr oeddent yn dymuno ei wneud eu hunain gan achosi tagfeydd a gall y plant gymryd y lle drosodd"

Rhoddodd y rhai hynny oedd yn dweud eu bod eisiau gweithgareddau (i oedolion neu blant) y rhesymeg a'r sylwadau canlynol:

Dywedodd 12.5% fod plant yn diflasu fel arall

Roedd 12.5% yn ffafrio ardaloedd wedi eu dynodi ac ardaloedd ar wahân neu 'ardaloedd darganfod' i osgoi tagfeydd.

Rhoddodd y rhai hynny oedd yn ffafrio gweithgareddau i blant y sylwadau canlynol:

"fydd pobl ifanc ddim yn cymryd rhan fel arall"

"gwneud modelau o hen deganau, gwaith creadigol a gweithio gydag iaith"

"gwneud pethau ymarferol, defnyddio'r rhyngrwyd, pethau plant oherwydd fedrwyd chi ddim dibynnu ar yr haf ym Mhrydain. Gellid gwneud dawnsio gwerin Cymreig y tu allan neu wers ar grefftiau hefyd"

"mae profiad ymarferol bob amser yn dda e.e. godro buwch yn Folly Farm yn arbennig i rai ifanc"

"mae gweithgareddau'r Nadolig i blant yn wych"

Roedd y rhai oedd yn ffafrio gweithgareddau i oedolion yn gwneud yr awgrymiadau canlynol:

"i allu cyffwrdd rhai o'r pethau ac efallai cyffwrdd y gwelyau fel ein bod yn cael syniad

ynghylch pa mor arw oedd pethau iddyn nhw o'i gymharu â'r gymdeithas fodern"

"clywed am hanesion, cymeriadau/pobl o amgylch Cymru. Defnydd o'r archif lafar"

"siarad â phobl mewn rôl. Canfod pethau fy hunan. Ishe bod yn agos at y gwrthrychau".

17. A ydych wedi gweld unrhyw orielau eraill mewn amgueddfeydd eraill yr ydych yn arbennig o hoff ohonynt? Os felly – pa amgueddfeydd a pham yr oeddech yn eu hoffi?

Ni roddodd 17.86% o ymwelwyr unrhyw ymateb

Roedd yr ymatebion mor amrywiol fel nad oes modd eu rhoi mewn dosbarthiadau ac felly i ddilyn ceir rhestr o'r ymatebion mwyaf nodedig. Mae'r cromfachau yn nodi lle roeddent yn byw.

Cwpl dros 55 oed (Cymru): "Beamish ac Amgueddfa Cairo. Mae'n well yma nag Amgueddfa Cairo oherwydd bod llwybr o amgylch sy'n cadw pobl i symud yn eu blaenau: gallwch fynd i mewn un ffordd a gadael ar hyd ffordd arall fel llwybr pedol. Yn Cairo roedd tagfeydd o amgylch rhai cistiau a dydy hynny ddim yn gysurus".

2 ferch o dan 16 (Lloegr): "Amgueddfa Dinas Bryste lle mae'r gynulleidfa yn gwneud llawer a lle ceir gweithgareddau crefft ar Ddiwrnod Hwyl ar ddydd Sul. Er enghraifft pan gawsant arddangosfa teganau roeddem yn gwneud printio ar sgrin a phypedau. Yna yn Techniquet ym Mryste maent yn gwneud gweithgareddau celf greadigol bob dydd i blant neu daflenni gwaith. Er enghraifft daethant â neidr i'w chyffwrdd un tro ac yna cawsom olchi ein dwylo gyda sebon antiseptig".

Teulu ifanc (Cymru): "Rydym yn hoffi Oriol Dylan Thomas lle mae gennych glustffonau rhyngweithiol, Parc Treftadaeth Rhondda lle'r aethom o dan y ddaear a gwneud pethau rhyngweithiol ac Amgueddfa Lofaol Afan, lle roeddem yn gwneud modelau a lle'r oedd sgriniau teledu a sain. Gallech ddangos dynes yma yn gwneud menyngwyl gyda synau.

Cwpl 45-54 oed (Uganda): "Amgueddfa Tepapa yn Wellington, Seland Newydd".

Teulu ifanc (Lloegr): "Think Tank Birmingham, sy'n dangos sut mae baban yn tyfu a pham a gallwch ei dynnu'n ddarnau. Gellid bod â mwy o bethau yma i'w cyffwrdd a'u gweld".

2 ffrind (G+B) 16-24 oed (UDA): "Mae gwell arddangosfeydd yn y Smithsonian nag yma a phaneli arddangos gyda mwy o wybodaeth arnynt oherwydd maent yn dweud beth yw rhywbeth a beth mae'n ei wneud".

Cwpl 45-54 oed (Seland Newydd): "Mae'r rhan lle rydych chi'n gwisgo i fyny yn Amgueddfa Oakland yn dda ac mae ganddynt flociau adeiladu a jig-sos hen ffasiwn. Mae ganddynt biano ffug y gallwch roi cynnig arno a phethau eraill nad oes gan blant bellach ond a oedd gan ein cenhedlaeth ni. Cofiwch fod plant bob amser yn gorfod cyffwrdd".

Cwpl dros 55 oed (Cymru): "Beamish. Rydym yn hoffi crwydro o gwmpas a gweld pethau a pheidio â chael ein cyfyngu ac mae'r ffaith fod hwn am ddim yn wych. Ond mae angen mwy o gymorth ar ffurf canllawiau, dehonglwyr a digwyddiadau arbennig, sy'n dda yma. Rydym yn mynd i Gaerllion yn aml ac yn hoffi'r ffaith fod llawer yn mynd ymlaen i bobl ifanc fel y Grŵp Archeolegwyr Ifanc, fel bod lefel dda o gyfranogiad cymunedol.

2 ddyn 25-44 oed (Sweden): Rydym yn hoffi Skansen a'r Amgueddfa Nordig sy'n dangos gwisgoedd a sut yr arferai pobl, tlawd a chyfoethog, fyw o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y dydd heddiw. [Sut?] Drwy un tŷ mawr gyda phob ystafell wedi ei haddurno yn wahanol i ddangos y newid/cynnydd".

Gwraig 25-34 oed (Cymru): "Rwy'n hoffi Amgueddfa Mucha yn Prague. Mae'n rhoi pethau yn eu cyd-destun yn dda gyda ffotograffau ac mewn cornel amgaeedig mae'n dangos ffilm 10 munud o fywyd pobl Prague.

Gwraig dros 55 (Lloegr): "Rwy'n hoffi'r Amgueddfa Gwyddoniaeth yn Llundain ond mae wedi ei threfnu gan ddilyn cysyniad gwahanol i yma. Mae hon i fod yn amgueddfa werin a gwledig. Beth yw'r pwynt o fod â 'wiz bang' modern yma os ydych yn ceisio dangos sut roedd 10 neu 12 o bobl yn cysgu mewn un ystafell allan yna? Mae hen steil yr orielau dan do yn gweithio ar y lefel honno. Ac ymhellach pe bai'r holl amgueddfeydd ym Mhrydain yr un fath dyna i chi bwynt negyddol".

Cwpl dros 55 (Lloegr): "Yng Nghaerefrog rydym yn hoffi Amgueddfa'r Castell, gydag ystafelloedd o wahanol gyfnodau gyda gwahanol bethau ynddynt. Rydym yn hoffi Amgueddfa yr Alban. [Oeddech chi'n hoffi'r adnoddau rhyngweithiol yno?] Oeddem, roedd yno ffonau i wrando ar leisau pobl".

Gwraig 35-44 oed (Lloegr): "Roeddwn yn hoffi Plymouth Plantation ond mae'r orielau dan do a'r rhai awyr agored yn llai na'r rhai yma. Mae'r modd y maent yn defnyddio dehongliad byw yn ddiddorol yno oherwydd maent yn cadw at eu stori. Gallech godi tâl yma a bod â rhywbeth tebyg efallai. Ond mae'r Wardeniaid yma yn wybodus er hynny".

Dau ifanc (G+B) o dan 16 (Cymru): "Rydym yn hoffi Techniquet a'r Amgueddfa Genedlaethol yn Cathays: mae'r Ystafell Arddangos yn dda ac mae yna elfen rhyngweithiol i'r deinosoriaid".

Cwpl dros 55 (Cymru): "Rydym yn hoffi'r Amgueddfa Genedlaethol yn Cathays. Hefyd yr Amgueddfa Amaethyddol yr aethom i'w gweld yn America, a oedd â llo gyda dau ben.

Rydym yn hoffi Amgueddfa Abertawe lle mae ganddynt fymi hyd yn oed. Rwy'n hoffi Amgueddfa Rhaeadrau Aberdulais sy'n dangos hanes y rhaeadrau a'r ffowndri haearn. Mae ganddynt sgrin lle gallwch wasgu botwm a gweld yr wybodaeth a gall hyn eich arbed rhag ymdrechu i geisio gweld y math o gardiau sydd gennych yma. Gallwch fod â rhywbeth lle gall pobl ddewis print mwy drwy fynegai. Hoffem ddweud ein bod yn anhapus fod y caffi yma yn cau mor gynnar oherwydd roedd arnom eisiau cael te a hufen iâ ar ôl bod yn yr orielau".

Cwpl dros 55 (Cymru): Rydym yn hoffi'r adeiladau yma ac amgylchedd y Castell. Mae'n dawl ac yn hardd. Roeddem yn hoffi cysylltu darnau yma ac acw â'n hatgofion o dyfu i fyny.

2 wraig dros 55 (Awstralia): Rydym wedi bod i'r Pwll Mawr, oedd yn wych gyda'r thema yn ymwneud â bywyd y glöwr. Mae'r Amgueddfa Werin yn wych yn ogystal oherwydd bod gennych thema gref a rhaid i chi beidio â cholli eich ffocws. Aethom i'r Felin ac yno fe welon ni nhw yn cneifio dafad o'm blaen a thrafod y bridiau o ddefaid. Roedd dau ymwelydd yno oedd yn ystyried prynu moch o'r amgueddfa!"

Cwpl 25-34 oed (Cymru): "Rydym wedi bod i Amgueddfa Lofaol Trehafod ac Amgueddfa Lechi Blaenau Ffestiniog".

Gwraig 35-44 oed: "Amgueddfa Gorllewin Awstralia. Y 'Cabinet of Curiosities' yn Tate Modern, sy'n arddangos casgliad o bethau a ddarganfuwyd yn afon Tafwys".

Dyn 25-34 oed (Cymru): "Tate Modern, Tŷ Anne Frank"

Dyn 16-24 oed (Seland Newydd): "Rwy'n hoffi Amgueddfa Auckland lle'r oedd ganddynt bobl wedi gwisgo i fyny yn perfformio yn hytrach na phobl ddiflas yn sefyll o gwmpas yn yr adeilad mewn iwniform. Gallech fod ag actorion i wneud i blant iau fwynhau'r lle a rhoi tipyn o hwyl i bobl wrth ddysgu yn hytrach na ffeithiau diflas.

CASGLIADAU O'R GWERTHUSIAD SYLFAENOL

Tynnwyd y casgliadau canlynol oddi wrth:

- ☐ 31 o gyfweiliadau a wnaed gan Dîm Oriel 1, 20-24 Mehefin 2005
- ☐ 50 o gyfweiliadau a wnaed gan Clare Elisabeth Parry, 6-11 Gorffennaf 2005

Mae ymwelwyr o bob dosbarth oed yn ymweld â'r oriel

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld â'r oriel gyda phobl eraill (98%)

Nid oedd 16% o ymwelwyr i'r oriel yn dod o'r DU

Roedd 71% wedi ymweld â'r oriel o'r blaen

Roedd defnydd pobl o'r oriel yn dibynnu'n bennaf naill ai ar y tywydd neu ar ddiddordeb personol penodol

Doedd llawer o bobl ddim yn gwybod fod yr oriel yn bodoli ac roedd eraill yn meddwl y dylid ei marchnata/arwyddo yn well

Siaradodd y rhan fwyaf o ymwelwyr am yr orielau fel profiad annibynnol ac ar wahân i'r adeiladau hanesyddol

Cyfeiriodd ymwelwyr o bob oed at yr orielau fel rhai digroeso, ac fel lleoedd oeraidd wedi eu goleuo yn wael

Soniodd y rhan fwyaf o ymwelwyr am yr arteffactau a'u gallu i fynd yn agos atynt fel agweddau mwyaf pleserus yr oriel

Awgrymai tystiolaeth fod ymwelwyr yn uniaethu gyda'r arteffactau hynny oedd â chysylltiad â'u profiad personol

Roedd ymwelwyr yn tueddu i hoffi natur eclectic yr orielau ond cwynodd 1 o bob 7 fod gormod o enghreifftiau o rai grwpiau o arteffactau.

Roedd ymwelwyr yn gwneud sylwadau yn aml ynglŷn â'r diffyg dehongli a'r angen am fwy o haenau o wybodaeth.

Cyfeiriodd 64% o ymwelwyr at yr angen am adnoddau rhyngweithiol i'w harddangos. Roedd y rhan fwyaf o ddywedodd hynny o dan 50.

Cyfeiriodd un o bob tri o ymwelwyr at yr angen am fideo fel ffordd o ddweud storïau a darparu cyd-destun.

Cyfeiriodd llawer at yr angen am wahanol ardaloedd o fewn yr oriel, gyda phwyslais ar le i astudio tystiolaethau llafar, ffotograffau a deunyddiau archifol eraill, ac ardal ddarganfod i blant.

APPENDIX E: HOLIADURON GWERTHUSO SYLFAENOL

HOLIADUR ORIEL UN

1) Rhyw

Dyn		Menyw	
-----	--	-------	--

2) Beth yw eich oedran? (*Os yw pobl yn fodlon*)

o dan 16		16-24		25-34		35-44		45-54		Dros 55	
----------	--	-------	--	-------	--	-------	--	-------	--	---------	--

3) Ble ydych chi'n byw?

4) Pwy sydd wedi dod gyda chi heddiw?

Teulu	
Ffrind	
Grŵp	
Ysgol	
Coleg	
Arall	

5) Cyn heddiw, oeddech chi wedi bod i'r Amgueddfa hon o'r blaen?

Heddiw yw'r tro cyntaf	
Unwaith o'r blaen	
2-3 gwaith o'r blaen	
4 gwaith neu fwy o'r blaen	

6) A ydych chi wedi ymweld â'r orielau heddiw?
(Efallai bydd angen esbonio beth yw'r orielau)

Do	
Naddo	

7) A wnaethoch chi gerdded trwy'r orielau i gyd neu ymweld ag un rhan yn arbennig?

Cerdded trwy'r cyfan	
Y rhan amaethyddol?	
Y gwisgoedd?	
Yr oriel sydd y pen arall ac yn cynnwys y telynau?	

8) Pam aethoch chi/na aethoch chi i weld yr orielau?

9) Fyddech chi'n dweud bod yr orielau yn:

Llawer gwell na'r disgwyl	
Ychydig yn well na'r disgwyl	
Fel roeddech yn ei ddisgwyl	
Ddim cystal â'r disgwyl	
Ddim hanner cystal â'r disgwyl	

10) Pam?

11) Beth oeddech chi'n ei hoffi fwyaf am yr orielau?

12) Beth oeddech chi'n ei hoffi lleiaf am yr orielau?

13) Beth yw eich barn am y ffordd mae pethau yn cael eu harddangos nawr?

Gormod neu ddim digon i'w ddarllen?	
Gormod neu ddim digon o wrthrychau?	
Hoffech chi gael mwy o arddangosfeydd rhyngweithiol?	
A oes digon o le i eistedd?	
Unrhyw sylw arall	

14) Oedd yna unrhyw wrthrychau neu straeon amlwg yn yr orielau?

15) Pa straeon/hanesion hoffech chi wybod amdanynt?

16) Sut hoffech i'r straeon/hanesion hyn gael eu cyflwyno?

(Lluniau, Gweithdai?Darllen?Cyfrifiadur?Gwrthrychau?Fideo?Gwaith artistiaid? Cyfuniad o'r rhain?)

17) Pa fath o bethau hoffech chi wneud yn yr oriel?

18) Ydych chi wedi gweld unrhyw orielau mewn Amgueddfeydd eraill ac wedi eu hoffi? Os do, pa rai a pham?

HOLIADUR ORIEL UN

1) Rhyw

Dyn		Menyw	
-----	--	-------	--

2) Beth yw eich oedran? (*Os yw pobl yn fodlon*)

o dan 16		16-24		25-34		35-44		45-54		Dros 55	
----------	--	-------	--	-------	--	-------	--	-------	--	---------	--

3) Ble ydych chi'n byw?

4) Pwy sydd wedi dod gyda chi heddiw?

Teulu	
Ffrind	
Grŵp	
Ysgol	
Coleg	
Arall	

5) Oeddech chi wedi bod i'r Amgueddfa hon o'r blaen?

Heddiw yw'r tro cyntaf	
Unwaith o'r blaen	
2-3 gwaith o'r blaen	
4 gwaith o'r blaen	

6) A ydych chi wedi ymweld â'r orielau heddiw?
(Efallai bydd angen esbonio beth yw'r orielau)

Do	
Naddo	

7) A wnaethoch chi gerdded trwy'r orielau i gyd neu ymweld ag un rhan yn arbennig?

Cerdded trwy'r cyfan	
Y rhan amaethyddol	
Yr oriel wisgoedd	
Yr oriel gyda'r offerynnau cerdd	

8) Pam aethoch chi/na aethoch chi i weld yr orielau?

9) Fyddech chi'n dweud bod yr orielau yn:

Well na'r disgwyl	
Ychydig yn well na'r disgwyl	
Fel roeddech yn ei ddisgwyl	
Yn waeth na'r disgwyl	
Yn llawer gwaeth na'r disgwyl	

10) Pam?

11) Beth oeddech chi'n ei hoffi fwyaf am yr orielau?

12) Beth oeddech chi'n ei hoffi leiaf?

13) Beth yw eich barn am y ffordd mae pethau wedi eu harddangos?

Gormod neu ddim digon o ddeunydd darllen?	
Gormod o wrthrychau?	
Hoffech chi gael mwy o adnoddau rhyngweithiol?	
A oes digon o le i eistedd?	
Unrhyw sylw arall	

14) Oedd yna unrhyw wrthrychau neu straeon amlwg yn yr oriel?

15) Pa fath o straeon/hanesion hoffech chi wybod amdanynt yn yr orielau?

16) Sut hoffech i'r straeon/hanesion hyn gael eu cyflwyno yn yr orielau?

(Lluniau, Gweithdai?Darllen?Cyfrifiadur?Gwrthrychau?Fideo?Gwaith artistiaid? Cyfuniad o'r rhain?)

17) Pa fath o bethau/gweithgareddau hoffech chi eu gwneud yn yr orielau?

18) Ydych chi wedi gweld unrhyw orielau mewn amgueddfeydd eraill ac wedi eu hoffi yn arbennig? Os do, pa rai a pham oeddech chi yn eu hoffi?